

Asesiad Llety

Sipsiwn a Theithwyr

Bro Morgannwg



Adroddiad Terfynol

Mai 2016

Gwasanaethau Ymchwil Barn The Strand, Abertawe SA1 1AF

Steve Jarman, Claire Thomas ac Ian Woodward

Ymholiadau: 01792 535300 · info@ors.org.uk · www.ors.org.uk

© Hawlfraint Mai 2016

Yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus trwyddedwyd dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0

Yn cynnwys Data SY © Hawlfraint y Goron (2014)

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol

.....	5
Cyflwyniad a Methodoleg	5
Darpariaeth Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr	5
Safleoedd Trawstaith	5
Pobl Sioe Deithiol	5

2. Cefndir a Chyd-destun Polisi

.....	7
Yr Astudiaeth	7
Deddfwriaeth a Chanllawiau	7
Deddf Tai (Cymru) 2014	7
Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013	8
Cylchlythyron Cynllunio 30/2007 a 78/91	9
Canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru	9
Polisiâu Cynllunio Lleol	9
Diffinio Termau Allweddol	11

3. Dadansoddi Data

.....	16
Current and Previous ALSTau	16
ALST Bro Morgannwg 2013	16
Data Cyfrif Carafanau	20
Safleoedd ac Iardiau ym Mro Morgannwg	22

4. Methodoleg

.....	24
Grŵp Llywio'r Project	24
Nodi a Dadansoddi Data	25
Cyhoeddi'r Asesiad Llety	25
Cynnal yr Arolygon Asesu Llety	26
Cyfweliadau Safle	26
Cyfweliadau Brics a Morter	26

Cyfrifo Anghenion Llety Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe Deithiol	27
Cyflenwad Preswyl	27
Galw Preswyl	27
Galw yn y Dyfodol	27
Canlyniadau Terfynol	28
Darpariaeth Trawsteithio	28
Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwasanaeth Ymchwil Barn Bro Morgannwg Mai 2016	
4	
Rhestr Wirio Cydymffurfio ag Ymgysylltu	28
5. Canfyddiadau Arolwg	31
Cefndir	31
Log Cyfweiliadau	31
Trosolwg a Demograffeg Trigolion	31
Crynodeb Cyfweld	32
Safle Preifat	32
Safle Dros Dro	32
Safle a Oddefir	33
Safle Nas Awdurdodir	34
Pobl Sioe Deithiol	34
6. Aseu Anghenion Llety	35
Cyflenwad Preswyl	35
Galw Preswyl	35
Galw yn y Dyfodol	36
Cyflenwad Preswyl Awdurdodedig ac a Oddefir	36
Galw Preswyl	37
Safleoedd nas Awdurdodir ac a Oddefir	37
Lleiniau wedi'u Gorboblogi	38
Tai Arferol.....	38
Darpariaeth Lleiniau Ychwanegol: Angen yn y Dyfodol	39
Twf y Boblogaeth a'r Aelwydydd	39
Angen Cyffredinol ym Mro Morgannwg	40

Angen am Leiniau Pobl Sioe Deithiol	41
7. Casgliadau	43
Darpariaeth Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr yn y Dyfodol	43
Safleoedd Trawsteithio	43
Pobl Sioe Deithiol	43
Atodiad A: Safleoedd ac Iardiau ym Mro Morgannwg (Ionawr 2016)	44
Atodiad B: Log Cyfweiliadau	45
Atodiad C: Nodyn Technegol ar Ffurfiad Aelwydydd a Chyfraddau Twf	46

1. Crynodeb Weithredol

Cyflwyniad a Methodoleg

1.1 Prif amcan Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2015 (ALST) yw rhoi asesiad cadarn o'r angen presennol ac yn y dyfodol ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg. Mae'n sail dystiolaeth gadarn a chredadwy y gellir ei defnyddio i gynorthwyo deall ac i ddarparu lleiniau Teithwyr yn y cyfnod ALST 2016-2026, a hefyd i gynorthwyo paratoi Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg sy'n rhedeg tan 2026. Mae Deddf Tai (Cymru) hefyd yn nodi bod yn rhaid cynnal asesiad o ALST bob 5 mlynedd; felly bydd angen cynnal yr adolygiad cyntaf yn 2021.

1.2 Mae'r ALST wedi ceisio deall anghenion llety'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn y Fro drwy gyfuniad o ymchwil wrth y ddesg, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac aelodau Cymuned y Teithwyr. Yn ogystal, gwahoddwyd ystod o randdeiliaid lleoli i fod yn rhan o Grŵp Llywio Project. Cwblhawyd un cyfweiliad ag aelwyd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn y Fro, a chwblhawyd 2 gyfweiliad â chynrychiolwyr Pobl Sioe Deithiol o ffair Ynys y Barri. Er gwaethaf ymdrechion parhaus, ni fu modd cwblhau cyfweiliadau ffurfiol ag unrhyw drigolion sy'n byw ar y safle heb awdurdod yn Sili – er ymgysylltwyd yn llwyddiannus â rhai o'r trigolion, ac ni chanfuwyd unrhyw un sy'n byw mewn tai brics a mortar oedd am gael ei gyfweld.

1.3 Data sylfaen y dyddiad hwn yw **Ionawr 2016**.

Darpariaeth Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr yn y Dyfodol

1.4 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth hon amcangyfrifir bod angen **2 llain ychwanegol** i Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg dros 5 mlynedd yr ALST a 5 mlynedd nesaf y Cynllun Datblygu ac y bydd angen **18 llain ychwanegol** am weddill cyfnod y Cynllun Datblygu tan 2026. Rhydd hyn gyfanswm o **20 llain ychwanegol** dros gyfnod cyfan y Cynllun Datblygu. Y ffigurau hyn yw swm rhagweledig y ddarpariaeth y mae angen i fodloni ymrwymadau statudol tuag at anghenion y boblogaeth sy'n deillio o'r ardal.

Safleoedd Trawsteithio

1.5 Argymhellir **nad oes angen i'r Cyngor ddarparu safle trawsteithio** ym Mro Morgannwg. Ond dylai'r Cyngor barhau i fonitro nifer y gwersylloedd heb awdurdod ac ystyried goddef dros dro neu ddefnyddio Cytundebau Stopio a Negodir i ddelio ag arosfeydd trawsteithio byrdymor.

Pobl Sioe Deithiol

1.6 Er nad oes unrhyw iardiau Pobl Sioe Deithiol ffurfiol ym Mro Morgannwg, mae'r aelwyd sy'n rheoli'r ffair yn Ynys y Barri wedi nodi bod ganddynt un uned o lety dros dro (tymhorol) yn y ffair a bod hyn at ddibenion diogelwch i sicrhau bod rhywun ar y safle ar bob amser yn ystod tymor y ffair. Mae hyn yn bodloni'r holl lety tymhorol ar hyn o bryd.

1.7 O ran gweithredwyr y reidiau eraill cadarnhawyd bod rhan fwyaf y gweithredwyr ar gyfer tymor 2016 yn lleol ac yn byw mewn tai, neu fod ganddynt iardiau eraill yng Nghymru a Lloegr.

1.8 Mae'r aelwyd arall a gyfwelwyd wrthi'n ceisio datblygu dull cydweithredol o ddatblygu iard newydd rhywle ar hyd Coridor yr M4 yn Ne Cymru ac yn ystyried llain o dir ym Mhenybont-ar-Ogwr. Maent wedi dweud nad ydynt yn ceisio darpariaeth gyhoeddus iard newydd i fodloni eu hanghenion.

1.9 O ganlyniad nid oes angen ychwanegol i Fro Morgannwg ystyried Pobl Sioe Deithiol.

2. Cefndir a Chyd-destun Polisi

Yr Astudiaeth

2.1 Penodwyd Gwasanaethau Ymchwil Barn (ORS) gan Gyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) ym mis Hydref 2015 i gwblhau asesiad anghenion cadarn a chyfoes o lety Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ac yn aros yn y Fro i'r ALST a'r Cynllun Datblygu tan 2026.

2.2 Mae'r astudiaeth yn cynnig sail dystiolaeth i alluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion sydd arnynt o ran Sipsiwn a Theithwyr dan Adran 3 Deddf Tai (Cymru) 2014.

2.3 Mae'r ALST yn rhoi asesiad cadarn o angen i gael llety Sipsiwn a Theithwyr yn y Fro. Mae'n sail dystiolaeth gadarn a chredadwy y gellir ei defnyddio i gynorthwyo i ddeall a darparu lleiniau Teithwyr yn y cyfnod ALST 2016-2026, a hefyd i gynorthwyo â pharatoi Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg sy'n rhedeg tan 2026.

2.4 Byddem yn nodi o'r cychwyn bod yr adroddiad yn cwmpasu anghenion Sipsiwn (gan gynnwys Sipsiwn Cymreig, Albanaidd, Romani a Seisnig), Teithwyr Gwyddelig, Teithwyr "Oes Newydd", a Phobl Sioe Deithiol, ond er cyfleuster rydym wedi cyfeirio at yr astudiaeth fel Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALST).

2.5 Data sylfaen y dyddiad hwn yw **Ionawr 2016**.

Deddfwriaeth a Chanllawiau

Deddf Tai (Cymru) 2014

2.6 Dan Ran 3 Deddf Tai (Cymru) 2014 (y Ddeddf) rhaid i awdurdodau tai lleol gynnal asesiad newydd o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw neu'n aros yn eu hardal rhwng Chwefror 2015 a Chwefror 2016.

2.7 Mae Adran 102 y Ddeddf yn gorfodi awdurdodau lleol baratoi adroddiad i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo sy'n gwneud y canlynol:

» manylu ar sut y cynhaliwyd yr adroddiad;

» yn cynnwys crynodeb o:

*yr ymgynghoriad a wnaed mewn cysylltiad â'r asesiad; a'r

*ymatebion a gafwyd ar yr ymgynghoriad hwnnw (os o gwbl);

» manylion yr anghenion llety a nodwyd gan yr asesiad.

2.8 Ar ôl ei gymeradwyo rhaid i'r awdurdod tai lleol gyhoeddi'r asesiad.

2.9 Os nodir angen yn adroddiad yr ALST, dan Adran 103 y Ddeddf, rhaid i awdurdod lleol arfer ei bwerau yn Adran 56 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 i'r graddau angenrheidiol er mwyn bodloni'r anghenion hynny.

2.10 Mae Adran 106 y Ddeddf yn nodi y dylai awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru. Cyhoeddwyd canllawiau ar gynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr ym mis Mai 2015. Ceisia gynorthwyo awdurdodau lleol wrth gyflawni Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr a rhydd ganllawiau ymarferol i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth gyflawni Asesiad o'r dechrau i'r diwedd. Cynhaliwyd yr Asesiad hwn gan ystyried y Canllaw hwn.

2.11 Mae'r canllawiau'n cwmpasu'r materion canlynol:

- » Pam mae angen ALST penodol?
- » Beth y dylid ei lunio?
- » Â phwy y mae angen ymgynghori?
- » Pa ffynonellau data mae angen eu hadolygu?
- » Dealltwriaeth o ddiwylliant cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.
- » Sut mae nodi a chyfathrebu â Sipsiwn a Theithwyr?
- » Sut mae dylunio, rheoli a chynnal ALST?
- » Cefnogi gyda gwaith partneriaeth a rhanbarthol.
- » Ystyried arolygon, technegau a chwestiynau arbenigol i'w defnyddio.
- » Sut caiff 'angen' llety ei asesu?
- » Cyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru.
- » Sut mae gwneud darpariaeth ar gyfer angen a nodir?

2.12 Noda Adran 108 y Ddeddf:

» **Anghenion llety** – yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i anghenion o ran darparu» safleoedd y leoli cartrefi symudol;

» **Sipsiwn a Theithwyr** - pobl sy'n byw bywyd mudol, gwaeth beth fo'u hil neu» darddiad, gan gynnwys pobl ar sail eu hanghenion personol, eu teulu neu eu dibynyddion o ran addysg ac iechyd, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu'n barhaol ac aelodau grŵp a drefnir o bobl sioe deithiol neu bobl syrhas (p'un ai a ydynt yn cyd-deithio felly ai peidio) a phawb arall â thraddodiad diwylliannol mudol neu fyw mewn cartref symudol;

» **Cartref symudol** – a ddiffinnir gan adran 60 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

2.13 Mae'r Canllawiau ALST yn nodi'r gofyniad sydd gan awdurdodau lleol i fodloni dyletswydd gyfreithiol i arfer eu swyddogaethau i gynnig lleiniau cartrefi symudol i fodloni unrhyw anghenion a nodir. Fe'u nodir yn Adran 56 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

2.14 Yn y Ddeddf hon ystyr "*cartref symudol*" yw:

» *Unrhyw adeiledd a ddylunnir neu a addasir i bobl fyw ynddo a all gael ei symud o un lle i'r llall (p'un ai drwy ei dowio, ei gludo ar gerbyd modur neu drelar) ac unrhyw gerbyd symudol a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo, ond nad yw'n cynnwys unrhyw stoc dreigl rheilffyrdd sydd ar y pryd ar reilffordd sy'n rhan o'r system reilffyrdd, nac unrhyw babell.*

» *Adeiledd a ddylunnir neu a addasir i bobl fyw ynddo sy'n cynnwys hyd at 2 adran a adeiledir ac a ddylunnir ar wahân a godir ar safle drwy foltau, clampiau neu ddyfeisiau eraill ac sydd, pan fyddo wedi'i godi, yn gallu cael ei symud ar y ffordd o un lle i'r llall (p'un ai drwy ei dowio, ei gludo ar gerbyd modur neu drelar).*

Cylchlythron Cynllunio 30/2007 a 78/91

2.15 Ym mis Rhagfyr 2007 cyhoeddwyd canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynllunio Safleoedd Carfannau Sipsiwn a Theithwyr ar ffurf Cylchlythyr 30/2007. Ffurfiodd y ddogfen y fframwaith blaenorol i seilio astudiaeth ALST arni, a rhoddodd ganllawiau wedi'u diweddarau ar agweddau cynllunio dod o hyd i safleoedd cynaliadwy i Sipsiwn a Theithwyr a sut y gall awdurdodau lleol a Sipsiwn a Theithwyr gydweithio i gyflawni'r nod hwn.

2.16 Rhoddodd Cylchlythyr 78/91 y Swyddfa Gymreig gyngor cynllunio i Bobl Sioe Deithiol nas diddymwyd gan Gylchlythyr 30/2007. Cydnabyddda anghenion mwy penodol Pobl Sioe Deithiol, ac yn benodol y gofyniad i ddarparu ar gyfer anghenion storio a chynnal a chadw, yn ogystal ag angen preswyl - yn aml fesul tymor. Noda hefyd y dylai awdurdodau lleol fod yn barod i drafod anghenion Pobl Sioe Deithiol ar gam cynnar o broses y cynllun datblygu a cheisio helpu Pobl Sioe Deithiol i helpu eu hunain.

Canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru

2.17 I gynorthwyo awdurdodau lleol wrth fodloni anghenion Sipsiwn a Theithwyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r canllawiau hyn ym mis Mai 2015. Bwriad hyn yw bod yn ganllaw i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau priodol am gost resymol i'r cyhoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn byw ar safleoedd preswyl yng Nghymru. Mae'n cynnwys canllawiau ymarferol i gynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau bod safleoedd yn addas. Nid yw'r canllawiau hyn yn statudol. Ond gobeithir y bydd dilyn y canllawiau hyn yn helpu awdurdodau lleol ac eraill wrth ddatblygu a gwella safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal, a bydd yn ffurfio rhan o ystyried Llywodraeth Cymru wrth asesu ceisiadau ar gyfer arian Grant Cyfalaf Safleoedd mewn perthynas â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Polisiau Cynllun Lleol

Cynllun Datblygu Unedol 1996-2011

2.18 Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Unedol (CDU) i Fro Morgannwg ym mis Mawrth 2005. Roedd yn cynnwys maes prawf penodol yn seiliedig ar bolisi HOUS14 mewn perthynas â Charafanau Sipsiwn. Mae'r Naratif yn nodi oherwydd y nifer isel iawn y Sipsiwn a Theithwyr yn y Fro, ni chredir bod digon o alw i ddyrannu safle. Roedd y polisi seiliedig ar feini prawf hwn felly wedi'i gynnwys. Teimlwyd nad oedd angen cynllunio am iardiau Pobl Sioe Deithiol yn y Fro.

Polisi HOUS14 – Carafannau Sipsiwn

Ni chaniateir cynigion i ddefnyddio tir i leoli carafannau preswyl a feddiennir gan Sipsiwn oni fodlonir yr holl feini prawf canlynol:

Nid yw'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar amwynder neu gymeriad ardaloedd cyfagos o ran sŵn, traffig, a gwaethygu traffig neu broblemau parcio; Nid yw'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fuddiannau amaeth, ardaloedd cadwraeth neu bwysigrwydd ecolegol, daearyddol, geomorffegol a bywyd gwyllt neu ddiogelu tirlun;

Mae gan y cynnig fynediad diogel i gerbydau; darperir tirlunio boddhaol; mae gwasanaethau cymuneol a chyfleustodau digonol yn bodoli a'u bod yn rhesymol hygyrch neu y gellir darparu ar eu cyfer yn economaidd.

Cynllun Datblygu Lleol 2011-2026

2.19 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) i'r Fro wrthi ar y cam Datganiad Ysgrifenedig y CDLI ar Adnau (Tachwedd 2013) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ei Archwilio ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n cynnwys polisi penodol i ddyrannu safle Sipsiwn a Theithwyr yn ogystal â meini prawf mwy cyffredinol yn seiliedig ar bolisi o ran Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Dechreuodd yr Archwiliad Cyhoeddus ym mis Ionawr 2016 ac yn y sesiwn Sipsiwn a Theithwyr rhoddodd yr Arolygydd nifer o Bwyntiau Gweithredu i'r Cyngor ymateb iddynt. Roedd y Pwyntiau Gweithredu hyn yn cynnwys dileu safle Hayes Road, Sili fel y safle Sipsiwn a Theithwyr dynodedig. Yn unol â hynny, caiff y cyfeiriad at

Hayes Road, Sili ei ddileu o'r polisi drafft cyfredol MG5 (isod) a gallai'r polisiâu eraill a amlinellir isod hefyd newid yn yr Amserlen Newidiadau i'r Materion sy'n Codi.

POLISI MG 5 – Safle Sipsiwn a Theithwyr

Dyrennir tir yn Hayes Road, Sili, i ddarparu safle Sipsiwn a Theithwyr.

2.20 Roedd hyn yn seiliedig ar dystiolaeth gan ALST a gwblhawyd mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd yn 2007, ynghyd ag ALST bellach a gwblhawyd gan ORS yn 2013 a ddaeth i'r casgliad bod angen 18 llain i fodloni'r angen a ganfuwyd a'r angen yn y dyfodol i Sipsiwn a Theithwyr yng nghyfnod y Cynllun Datblygu.

2.21 O ran darpariaeth drawsteithiol, daeth yr ALST flaenorol i'r casgliad bod bwllch yn y ddarpariaeth am safle trawsteithio yn ne-ddwyrain Cymru ond y gellid llenwi'r bwllch o bosibl gan amrywiaeth o awdurdodau ac y câi'r ardal fudd o gynllunio trawsffiniol strategol. Yn unol â hynny, ni wneir darpariaeth yn y Cynllun am safle trawsteithio.

Polisi MD 18 – Llety Sipsiwn a Theithwyr

Caniateir cynigion ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr ychwanegol ar yr amod:

1. Y dangosir bod gofynion llety'r ymgeisydd yn methu â chael eu bodloni yn y safle a ddyrennir gan Bolisi MG4;
2. Bod y safle mewn lleoliad da o ran ysgolion, cyfleusterau meddygol, siopau a gwasanaethau lleol eraill a chyfleusterau cymunedol;
3. Bod maint y safle a nifer y lleiniau'n briodol i'r lleoliad ac anghenion llety'r ymgeisydd;
4. Bod gwasanaethau digonol ar y safle o ran cyflenwad dŵr, draenio, carthffosiaeth, pŵer a gwaredu gwastraff neu fod modd eu darparu heb gael unrhyw effaith amgylcheddol annerbyniol; a
5. Bod y rhwydwaith priffyrdd presennol yn ddigonol i wasanaethu'r safle a bod dull mynediad bodddhaol yno gan gynnwys darpariaeth parcio, troi, gwasanaethu a cherbydau brys.

Polisiâu Eithrio Gwledig

2.22 Gall awdurdodau lleol hefyd awdurdodi safleoedd preifat mewn ardaloedd gwledig dan bolisi eithriadau gwledig. Yn ôl Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carfannau Sipsiwn a Theithwyr:

'Os dengys Asesiad Anghenion Llety fod angen safleoedd newydd, mewn ardaloedd gweledig, dylai'ch Cyngor ystyried llunio polisi 'safle eithrio gwledig carfannau Sipsiwn a Theithwyr' yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r math hwn o bolisi'n caniatáu datblygu safleoedd newydd ar dir wrth bentref neu dref, ond lle na chaniateid tai newydd fel rheol. Gall cynghorau ddefnyddio polisiâu eithriadau gwledig ar gyfer tai fforddiadwy i bobl sydd eisoes yn byw yn yr ardal, neu i bobl â chysylltiadau â theuluoedd neu swyddi lleol.'

2.23 Mae gan y CDLI bolisi sy'n caniatáu datblygu mewn ardaloedd gwledig os yw ar gyfer tai fforddiadwy; ond nid yw'n cyfeirio'n benodol at ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Polisi MD 11 – Tai Fforddiadwy mewn Ardaloedd Gwledig

Caniateir tai fforddiadwy pan fo perthynas ffisegol unigryw neu weledol ag anheddiad a phan ddangosir:

1. Bod y cynnig yn bodloni angen lleol a nodwyd na ellir ei fodloni o fewn ffiniau'r anheddiad;
2. Bod nifer yr anheddiadau'n gymesur â maint yr anheddiad;
3. Caiff yr annedd/anheddau eu codi i raddfa a chynllun sy'n gymesur â'r angen am dai fforddiadwy;
4. Mewn achosion lle mae naill ai gan landlord preifat neu'r meddiannwr a fwriedir yn darparu'r anheddiad, bod mecanweithiau sicr ar waith i sicrhau bod yr eiddo dal yn fforddiadwy;
5. Mae gan y datblygiad fynediad rhesymol i argaeledd ac agosrwydd gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol lleol;

6. Mae'r datblygiad yn cydymffurfio â Pholisïau .

Diffiniad o Dermau Allweddol

2.24 Mae Canllawiau ALST 2015 yn cynnwys diffiniadau cyffredin a ddefnyddiwyd yn y Canllaw a ddefnyddir yn yr Adroddiad ALST hefyd. Nodir y rhain yn y tabl isod:

Sipsiwn a Theithwyr	<p>(a) pobl sy'n byw bywyd mudol, waeth beth fo'u hil neu neu darddiad gan gynnwys:</p> <p>(1) Pobl ar sail eu hanghenion personol, eu teulu neu eu dibynyddion o ran addysg ac iechyd, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu'n barhaol ac (2) Aelodau grŵp a drefnir o bobl sioe deithiol neu bobl syrcas (p'un ai a ydynt yn cyd-deithio felly ai peidio) a</p> <p>(b) Pob person arall â thraddodiad diwylliannol o fudol neu fyw mewn cartref symudol.</p> <p>Ffynhonnell: Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014</p>
Safle preswyl	<p>Gall safle preswyl parhaol fod ym meddiannaeth tiffeddiannwr preifat neu gan yr Awdurdod Lleol.</p> <p>Caiff y safle hwn ei ddynodi at ddefnydd Sipsiwn a Theithwyr heb derfyn penodol. Gall trigolion ar y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau am gyhyd ag y bônt yn cadw wrth delerau'r cytundebau lleiniau dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.</p> <p>Mae modd darparu gofod gwaith ar neu ger safleoedd ar gyfer gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau'r gymuned.</p>
Safle preswyl dros dro	<p>Mae'r safleoedd hyn yn rhai preswyl gyda caniatâd cynllunio neu drwydded safle am gyfnod dros dro yn unig. Caiff trigolion ar y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau am gyfnod y caniatâd cynllunio neu drwydded safle (neu gyhyd ag y bônt yn cadw wrth delerau cytundebau'r lleiniau dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – p'un bynnag sydd gyntaf).</p>
Safleoedd Trawsteithio	<p>Mae safleoedd trawsteithio'n gyfleusterau parhaol a ddylunnir i feddianwyr eu defnyddio dros dro. Rhaid dylunio'r safleoedd hyn mewn ffordd sy'n fodd i Sipsiwn a Theithwyr gynnal ffordd fudol o fyw. Caniateir i feddianwyr unigol breswyl ar y safle am hyd at 3 mis ar y tro.</p> <p>Mae telerau penodol Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn berthnasol i'r safleoedd hyn.</p>

	<p>Mae modd hefyd darparu gofod gwaith ar neu ger safleoedd ar gyfer gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau'r gymuned.</p>
Man Aros Dros Dro	<p>Gelwir y rhain hefyd yn 'fannau aros', '<i>Atchin Tan</i>' neu 'lôn las' ymhlith enwau eraill. Bwriedir i'r rhain fod yn fyrdymor er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol pan dderbynnir bod angen lleiniau, ond nid oes unrhyw un ar gael ar hyn o bryd. Mae modd defnyddio mannau aros dros dro a nodir yn rhagweithiol i adleoli gweryllfaoedd a leolir yn amhriodol wrth weithio ar safleoedd amgen. Rhaid i fannau aros dros dro wneud darpariaeth ar gyfer gwaredu gwastraff, cyflenwad dŵr a hylendid o leiaf.</p>
Llain breswyl	<p>Tir ar safle cartref symudol lle mae gan y meddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol heb ddyddiad gadael penodol (oni nodir fel arall yn y cytundeb llain). Mae hyn fel arfer yn cynnwys bloc amwynderau, man ar gyfer carafán ddisymud a charafanau symudol a pharcio.</p>
Llain drawsteithio	<p>Tir ar safle cartref symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am hyd at 3 mis. Gall lleiniau trawsteithio fod ar safleoedd preswyl parhaol ond ni argymhellir hyn.</p>
Gwersyllfa heb awdurdod	<p>Tir a feddiennir heb ganiatâd y perchennog neu heb y caniatâd cynllunio defnydd tir cywir. Mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol yn goddef gweryllfaoedd yn ystod cyfnod datblygu safleoedd eraill.</p>
Datblygu heb awdurdod	<p>Tir a feddiennir gan y perchennog heb y caniatâd cynllunio defnydd tir angenrheidiol.</p>
Cyflenwad preswyl presennol.	<p>Nifer y lleiniau awdurdodedig sydd ar gael ac a feddiennir yn yr Awdurdod Lleol neu'r ardal bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd yr Awdurdod Lleol neu safleoedd preifat.</p>
Galw preswyl presennol	<p>Pobl y mae arnynt angen llain awdurdodedig am ystod o resymau gan gynnwys: Anallu i sicrhau llain awdurdodedig sy'n arwain at feddiannu gweryllfaoedd heb awdurdod; Anallu i sicrhau caniatâd Cynllunio cywir ar</p>

	<p>gyfer datblygiad heb awdurdod; Aelwydydd gorboblog i'w hamodau ac sydd eisiau llain; Aelwydydd mewn tai ond mae hyn yn ddiwylliannol annymunol; Disgwyl i deuluoedd newydd gyrraedd o rywle arall.</p>
Galw preswyl yn y dyfodol	<p>Lefel ddisgwyliedig ffurfio aelwydydd newydd a fydd yn creu galw ychwanegol yng nghyfnod 5 mlynedd yr asesiad llety a chyfnod hwy'r CDLI.</p>
Angen cyffredinol am leiniau preswyl	<p>Cyfanswm cyfrifiad angen llety nas bodlonir y mae rhaid ei nodi drwy'r broses asesu llety Sipsiwn a Theithwyr. Ceir y ffigur hwn drwy ychwanegu'r angen preswyl ar hyn o bryd at y galw preswyl yn y dyfodol. Bydd angen i'r angen preswyl cyffredinol nodi anghenion ar draws y cyfnod 5 mlynedd yr ystyrir y bydd yr asesiad llety'n gadarn trwyddo.</p>
Cyflenwad llain breswyl a gynllunnir	<p>Nifer y lleiniau awdurdodedig sy'n wag ac ar gael i'w rhentu ar safleoedd yr Awdurdod Lleol neu breifat. Mae'n cynnwys lleiniau a fydd yn wag yn fuan wrth i aelwydydd symud i dai arferol neu amgylchiadau eraill. Dylid cynnwys lleiniau ychwanegol a ddaw ar gael neu safleoedd preifat sy'n debygol o gael caniatâd cynllunio'n fuan fel cyflenwad preswyl a gynllunnir.</p>
Aelwyd	<p>Yn y canllaw hwn cyfeiria hyn at unigolion o'r un teulu syn cyd-fyw ar un llain / tŷ / gwersyllfa.</p>
Aelwydydd 'cudd' neu 'ddwbl'	<p>Cyfeiria hyn at aelwydydd na allant gael eu llety awdurdodedig eu hunain ac sydd, yn hytrach na hynny, yn byw mewn llety a awdurdodir (tŷ neu lain) a neilltuir i aelwyd arall. Gall gynnwys plant sy'n oedolion na allent symud cartref neu aelwydydd gwahanol yn byw ar un llain.</p>
Twf aelwydydd	<p>Yn y canllaw hwn diffinnir twf aelwydydd gan nifer yr aelwydydd newydd sy'n deillio o'r aelwydydd sydd eisoes yn byw yn yr ardal.</p>

3. Dadansoddi Data

3.1 Diben yr adran hon yn yr ALST yw nodi gwybodaeth gyfredol am y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg gan gynnwys asesiadau blaenorol o angen, data cymdeithasol-ddemograffaid, data cyfrif carafanau a darpariaeth gyfredol llety.

ALSTau Cyfredol a Blaenorol ALST Bro Morgannwg, 2013

3.2 Cyhoeddodd y Cyngor yr ALST newydd yn 2013 i ddisodli'r astudiaeth flaenorol a gydgomisiynwyd â Chyngor Caerdydd yn 2007. Nododd astudiaeth 2013 angen cyffredinol i ddarparu 18 llain newydd i fodloni gofynion un safle bach heb awdurdod ac un safle mawr heb awdurdod. Cafodd y safle bychan ganiatâd cynllunio dros dro neu apêl i ganiatáu datblygu safle cyhoeddus newydd a nodir yn y CDLI newydd. Yn anffodus, mae'r safle bellach wedi'i ddileu o'r CDLI yn dilyn pwynt gweithredu gan yr Arolygydd Cynllunio i'w ddileu o'r Cynllun fel darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr.

3.3 Credai'r Cyngor fod y diweddariad hwn yn amserol oherwydd y teimlai nas bodlonwyd argymhellion ALST 2008. Credid hefyd bod angen ailasesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr fel rhan o Asesiad Marchnad Dai Leol y Cyngor er mwyn rhoi darlun cywir a llawn o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg.

3.4 Amlygodd ALST 2013 hefyd dystiolaeth o fwch yn y ddarpariaeth ar gyfer safle trawsteithio neu fan aros brys yn ne-ddwyrain Cymru ond y gellid o bosibl ateb hyn gan ystod o awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru ac y byddai'n fuddiol cynnal cynllunio trawsffiniol strategol; ac ni argymhellodd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer Pobl Sioe Deithiol.

Data Poblogaeth – Cyfrifiad 2011

3.5 Cyfrifodd dadansoddiad o ddata Cyfrifiad 2011 o ran y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr gyfanswm o 6 aelwyd ac 21 unigolyn, a alwodd eu hunain yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig, sydd yn byw ym Mro Morgannwg - llai na 0.02% o'r boblogaeth gyfan. Mae'n bosibl y gallai hyn fod yn danamcangyfrif o ystyried y derbynnir bod lefelau is na'r cyfartaledd o aelodau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ymateb i'r Cyfrifiad. Mae nifer isel yr aelwydydd ac unigolion a gofnodir yn y cyfrifiad yn ei gwneud yn anodd gwneud cymhariaeth gadarn o nodweddion y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig a phoblogaeth ehangach y Fro felly dylid darllen y ffigyrau yn y tablau isod â phwyll.

3.6 Mae tystiolaeth i ategu'r tanamcangyfrif hwn yn adroddiad SYG a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014 o'r enw:

What does the 2011 Census tell us about the Characteristics of Gypsy or Irish Travellers in England and Wales?

Dywed:

In the 2011 Census for England and Wales, 58,000 people chose to identify themselves as Gypsy or Irish Traveller. Estimates for the UK from other sources vary between 82,000 to 300,000. Variations in the definitions used for this ethnic group has made comparisons between estimates difficult. For example, some previous estimates for Gypsy or Irish Travellers have included Roma or have been derived from counts of caravans rather than

people's own self-identity. Historical difficulties in collecting robust data, for example the group's concerns about official data collections/fear of discrimination have inhibited a true picture of Gypsy or Irish Travellers in England and Wales being gathered.

3.7 Ond er gwaetha'r tanamcangyfrif awgrymedig o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, mae data o Gyfrifiad 2011 yn nodi rhai gwahaniaethau demograffig sylweddol o'u cymharu â'r boblogaeth gyfan. Mae'r rhain yn bwysig o ran egluro cyfradd uwch ffurfio aelwydydd newydd Sipsiwn a Theithwyr o'i gymharu â'r boblogaeth wedi setlo. Yn gryno dengys y Cyfrifiad ar lefel Cymru a Lloegr:

- »Mae gan rywfaif yn llai na hanner yr aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr blant dibynnol (45%), o'u cymharu â 29% yng Nghymru a Lloegr.
- »Oedran cyfartalog Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig oedd 26 oed o'i gymharu â chyfartaledd o 39 oed.
- »Dim ond 6% o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig oedd 65+ oed o gymharu â 16% yn genedlaethol.
- »Roedd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig llai nag 20 oed yn 39% o'r boblogaeth o gymharu â ffigwr cenedlaethol o 24%.
- » Roedd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig llai nag 10 oed yn 20% o'r boblogaeth o gymharu â ffigwr cenedlaethol o 12%.
- »Roedd gan Sipsiwn neu Deithwyr y gyfradd isaf o bobl sy'n dweud bod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn, sef 70% yn erbyn ffigwr cenedlaethol o 81%.

3.8 Dengys y siartiau isod strwythur oedran y boblogaeth gyfan a'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Nghymru a Lloegr, ac ym Mro Morgannwg. Dengys hyn fod cyfradd uwch o blant ac oedolion Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, a chyfraddau sylweddol is o'r rhai 50+ oed. Mae hyn oherwydd cyfraddau geni uwch a disgwyliad oes is ymhlith y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr.

Ffigur 1 - Cymharu Strwythur Oedran Cyfrifiad (Cyfrifiad 2011)

3.9 Pan gymerir data cyfansoddiad aelwydydd o Gyfrifiad 2011 rhwng y boblogaeth gyffredinol yn y Fro a'r rhai a ddywedodd eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig, mae gwahaniaethau pellach. Eto dengys hyn nad oes aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr dros 65 oed, a bod pob aelwyd Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn deuluoedd.

Ffigur 2 – Cymharu Cyfansoddiad Aelwydydd ym Mro Morgannwg (Cyfrifiad 2011)

Cyfansoddiad Aelwydydd	Pob Aelwyd	Sipsiwn a Theithwyr
Aelwyd un person	20.6	0.0
65+ oed	13.2	0.0
Un teulu'n unig	64.9	100.0
65+ oed	9.4	0.0
Priod neu bartneriaeth sifil	34.9	16.7
Cwpl yn cyd-fyw	9.4	50.0
Unig riant	11.2	16.7
Mathau eraill o aelwydydd	5.5	0.0

3.10 Pan gymerir data math llety o Gyfrifiad 2011 y boblogaeth gyffredinol yn y Fro â'r rhai a ddywedodd eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig, mae gwahaniaethau pellach.

Dengys gyfradd sylweddol is o Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn byw mewn cartrefi ar wahân a chyfradd llawer uwch mewn fflatiau neu fflatiau deulawr, neu lety symudol/dros dro (neu o bosibl ar safleoedd Teithwyr).

Ffigwr 3 – Cymharu Math y Llety ym Mro Morgannwg (Cyfrifiad 2011)

Math y Llety	Pob Aelwyd	Sipsiwn a Theithwyr
Tŷ cyfan neu fyngalo: Cyfanswm	90.3	50.0
Tŷ cyfan neu fyngalo: Ar wahân	29.0	6.3
Tŷ cyfan neu fyngalo: Tŷ pâr	33.1	25.0
Tŷ cyfan neu fyngalo: Rhes (gan gynnwys tŷ pen)	28.3	18.8
Fflat neu fflat ddeulawr, neu lety symudol/dros dro	9.7	50.0

3.11 Pan gymerir data math deiliadaeth o Gyfrifiad 2011 y boblogaeth gyffredinol yn y Fro â'r rhai a ddywedodd eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig mae gwahaniaethau pellach.

Dengys gyfradd is o aelwydydd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig â pherchnogaeth lawn, cyfradd uwch â pherchenogaeth â morgais neu gydberchenogaeth, a dim yn byw mewn llety rhent preifat.

Ffigwr 4 - Cymharu Math y Ddeiliadaeth ym Mro Morgannwg (Cyfrifiad 2011)

Daliadaeth	Pob Aelwyd	Sipsiwn a Theithwyr
Perchen neu gyd-berchen: Cyfanswm	72.5	83.3
Perchen yn llwyr	35.4	16.7
Perchen â morgais neu fenthyciad neu gyd-berchen	37.0	66.7
Tai Cymdeithasol rhent: Cyfanswm	11.9	16.7
Rhentu gan gyngor (Awdurdod Lleol)	7.5	16.7
Llety rhent cymdeithasol arall	4.4	0.0
Llety rhent preifat neu byw'n ddi-rent: Cyfanswm	15.7	0.0
Landlord preifat neu asiantaeth osod	12.7	0.0
Rhent preifat arall neu byw'n ddi-rent	3.0	0.0

3.12 Pan gymerir data statws gweithgarwch o Gyfrifiad 2011 poblogaeth gyffredinol yn y Fro â'r rhai a ddywedodd eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig mae gwahaniaethau pellach. Dengys hyn fod cyfradd sylweddol is o aelwydydd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn economaidd actif ac mewn cyflogaeth; bod cyfradd sylweddol uwch yn economaidd anweithgar gan eu bod yn fyfyrwyr, yn gofalu am gartref neu deulu, yn dioddef salwch hirdymor; a chyfradd llawer is yn economaidd anweithgar oherwydd ymddeol.

Ffigwr 5 – Cymharu Statws Gweithgarwch Economaidd ym Mro Morgannwg (Cyfrifiad 2011)

Gweithgarwch Economaidd	Pob Aelwyd	Sipsiwn a Theithwyr
Economaidd weithgar: Cyfanswm	62.1	18.8
Mewn cyflogaeth: Cyfanswm	57.8	18.8
Cyflogeion: Cyfanswm	47.6	12.5
Hunan gyflogedig: Cyfanswm	8.4	6.3
Yn ddi-waith: Cyfanswm	4.3	0.0
Economaidd anweithgar: Cyfanswm	37.9	81.3
<i>Gofalu am y cartref neu'r teulu</i>	3.3	12.5

Salwch hir dymor neu anabledd	4.5	18.8
Wedi ymddeol	24.2	6.3
Myfyrwyr (gan gynnwys myfyrwyr llawn amser)	4.2	37.5

Data Cyfrif Carafanau

3.13 Ffynhonnell arall o wybodaeth gyhoeddedig am y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yw Cyfrifiad 6 mis Carfannau Sipsiwn a Theithwyr a gynhelir gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ar ddyddiad penodol ym mis Ionawr a mis Gorffennaf bob blwyddyn, ac a adroddir i Lywodraeth Cymru. Mae'n gyfrif ffisegol o nifer y *carfannau* ar safleoedd a awdurdodir a heb awdurdod ledled Cymru.

3.14 Gan fod hwn yn gyfrif o garfannau *ac nid* aelwydydd, mae'n ei gwneud yn anodd iawn ei ddehongli a'i ddefnyddio mewn astudiaeth megis hon am nad yw'n cyfrif lleiniau, aelwydydd preswyl na demograffeg aelwydydd. Cipolwg ar y pryd ydyw a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol ar ddiwrnod penodol ac felly ni chofnodir unrhyw safleoedd heb awdurdod neu wersylloedd ar ddiwrnodau eraill. Yn yr un modd ni chaiff unrhyw garfannau i ffwrdd o safleoedd ar ddiwrnod y cyfrif eu cynnwys. Nid yw ychwaith yn ceisio penderfynu ar statws ethnig meddianwyr carfannau.

3.15 Er hyn mae'r data yn y Cyfrif Carfannau'n rhoi syniad o nifer y safleoedd, a charafanau a awdurdodir a heb awdurdod ymhob awdurdod lleol, a gall fod yn ddefnyddiol wrth gynorthwyo penderfynu ar unrhyw anghenion trawsteithio, a nodir tueddiadau blwyddyn ar flwyddyn i gefnogi asesiad angen.

3.16 Dengys Ffigur 6 ddata i nifer y carfannau a awdurdodir a heb awdurdod a gofnodwyd ym Mro Morgannwg am y cyfnod 9 mlynedd ers 2006. Dengys gynnydd graddol yn nifer y carafanau heb awdurdod, ac roedd y nifer mwyaf ym mis Gorffennaf 2013 oherwydd digwyddiad unigryw. Y mae'r mwyafrif helaeth o'r rhain dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod y rhai a leolir ar y safle heb awdurdod ond a oddefir bellach yn Sili. Mae nifer y carafanau a awdurdodir yno yn fechan gan mai dim ond 2 safle preifat bychan sydd ym Mro Morgannwg - y mae un ar hyn o bryd yn wag. Mae'r gostyngiad yn nifer y carafanau a awdurdodir rhwng mis Ionawr 2015 a mis Gorffennaf 2015 oherwydd bod 3 carafán ar y safle yn Nhwyn yr Odyn ym mis Ionawr 2015, a dim ond 1 wedi'i gyfrif ar yr un safle ym mis Gorffennaf 2015.

Ffigur 6 - Cymharu Nifer y Carafannau ym Mro Morgannwg

Cyfanswm carafanau gyda a heb awdurdod ym Mro Morgannwg
(Ffynhonnell: Ystadegau Cymru)

[GRAPH]

_____gydag awdurdod - - - - -heb awdurdod

3.17 Un o brif ystyriaethau'r astudiaeth hon yw rhoi tystiolaeth i gefnogi darparu lleiniau i ateb anghenion llety cyfredol ac yn y dyfodol Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg. Mae llain yn ardal sy'n ddigon mawr i un aelwyd ei meddiannu, ac fel arfer yn cynnwys digon o le i ddwy garafán ond gall amrywio mewn maint. Mae safle'n gasgliad o leiniau sy'n ffurfio datblygiad yn benodol i Sipsiwn a Theithwyr. I Bobl Sioe Deithiol, y disgrifiadau mwyaf cyffredin a ddefnyddir yw llain o'r gofod a feddiennir gan un cartref ac iard i gasgliad o leiniau sydd fel arfer wedi'u meddiannu gan Bobl Sioe Deithiol yn unig.

3.18 Mae darpariaeth cyhoeddus a phreifat tai arferol hefyd wedi'i adlewyrchu i raddau helaeth wrth ystyried llety Sipsiwn a Theithwyr. Un ffurf gyffredin ar safle Sipsiwn a Theithwyr yw safle preswyl cyhoeddus, a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol neu gan Gymdeithas Dai. Mae modd fel arfer cael llain ar safleoedd cyhoeddus drwy gofrestru ar restr aros, a thelir am gostau rhedeg y safleoedd drwy rent a delir gan y tenantiaid (yn debyg i dai cymdeithasol).

3.19 Y dewisiadau amgen i safleoedd preswyl cyhoeddus yw safleoedd preswyl preifat ac iardiau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn ganlyniad i unigolion neu deuluoedd yn prynu ardaloedd o dir ac yna'n cael caniatâd cynllunio i fyw arnynt. Gall aelwydydd hefyd rentu lleiniau ar rai safleoedd preifat a redir ar sail fasnachol. Felly'r ddwy ffurf hyn ar lety sydd gyfystyr â pherchenogaeth a rhentu preifat i'r sawl sy'n byw mewn tai brics a mortar. Yn gyffredinol mae mwyafrif yr iardiau i Bobl Sioe Deithiol dan berchenogaeth a rheolaeth breifat.

3.20 Mae gan y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr hefyd ffurfiau eraill ar safleoedd oherwydd eu natur symudol. Tuedda safleoedd trawsteithio i gynnwys nifer o'r un cyfleusterau â safle preswyl heblaw bod cyfyngiad preswyl a all amrywio o rai wythnosau i rai misoedd. Dewis arall i safle trawsteithio yw man aros brys Mae cyfyngiadau ar y math hwn o safle hefyd o ran hyd yr amser y gall rhywun aros yno ond mae'r cyfleusterau yn fwy cyfyngedig. Dewis arall yw Cytundeb Stopio a Negodir sy'n caniatáu i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr sefydlu gwersylloedd byrdymor ar yr amod eu bod yn cydymffurfio ag amodau penodol. Dylunnir y rhain i letya, am gyfnod, Sipsiwn a Theithwyr wrth iddynt deithio. Mae gan nifer o awdurdodau hefyd bolisi gwersylloedd a dderbynnir pan oddefir stopio byrdymor heb gamau gorfodi.

3.21 Ystyriaethau eraill i'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yw datblygiadau a gwersylloedd heb awdurdod. Mae datblygiadau heb awdurdod ar dir y mae Sipsiwn a Theithwyr yn berchen arno neu lefydd y maent yn aros ynddynt â chaniatâd perchennog y tir, ond nad oes ganddynt ganiatâd cynllunio i'w defnyddio at ddibenion preswyl. Mae gwersylloedd heb awdurdod ar dir nad yw'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr - er enghraifft encilfeydd neu feysydd parcio.

Safleoedd ac Iardiau ym Mro Morgannwg

3.22 Ym Mro Morgannwg nid oes safleoedd cyhoeddus - er i'r ALST diwethaf nodi angen am y math hwn o ddarpariaeth. Mae 2 safle preifat bychan â'r ddau ag un llain, un y mae ganddo ganiatâd cynllunio ond nas meddiannwyd ers dyfarnu'r caniatâd a ddyfarnwyd mewn apêl ym mis Medi 2012. Deallir bod perchennog y safle wedi apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi a gyflwynwyd iddo o ran defnydd preswyl y tir a'r adeiladau mewn man arall ym Mro Morgannwg ond nid yw'r apelydd wedi cyflwyno unrhyw ystyriaethau polisi Sipsiwn a Theithwyr wrth amddiffyn ei apêl. Mae'r apêl yn dal i fynd rhagddi ar adeg ysgrifennu hwn. Gwrthodwyd caniatâd Cynllunio i'r safle arall, ond cafodd ganiatâd cynllunio dros dro am 3 blynedd yn dilyn apêl yn 2014. Daw i ben ym mis Tachwedd 2017.

3.23 Y mae ar hyn o bryd dau safle heb awdurdod, y ddau wedi'u lleoli ar dir ym mherchnogaeth y Cyngor. Safle teuluol bychan yw un yn Llangan a feddiennir ers dros 20 mlynedd, ac y mae'r llall yn

safle mawr oddi ar Hayes Road, Sili, a feddiennir gan gymysgedd o Deithwyr Oes Newydd a Phobl Sioe Deithiol. Ysgrifennodd y Cyngor at feddianwyr safle Hayes Road i roi iddynt sicrwydd na chymerid camau gorfodi Cynllun yn erbyn y safle o fewn y cyfnod 5 mlynedd wedi dyddiad y llythyr.

3.24 Nid oes safleoedd trawsteithio na mannau stopio brys, nac iardiau Pobl Sioe Deithiol. Ond mae Pobl Sioe Deithiol yn gweithredu yn y ffair yn Ynys y Barri am y cyfnod o'r Pasg hyd at fis Hydref. Mae manylion pellach ym **Mhennod 5 ac Atodiad A**.

Ffigwr 7 – Cyfanswm y ddarpariaeth ym Mro Morgannwg (Ionawr 2016)

Categori	Safle/lardiau	Lleiniau/Darnau
Preifat â chaniatâd cynllunio parhaol	1	1
Safleoedd preifat â chaniatâd cynllunio dros dro	1	1
Safleoedd cyhoeddus	0	0
Darpariaeth trawsteithio gyhoeddus	0	0
Darpariaeth trawsteithio breifat	0	0
Safleoedd a oddefir	0	0
Safleoedd heb awdurdod	2	18
Iardiau Pobl Sioe Deithiol Awdurdodedig	0	0
Iardiau Pobl Sioe Deithiol a Oddefir	0	0
Iardiau Pobl Sioe Deithiol Heb Awdurdod	0	0

Ffigwr 8 - Safleoedd ac Iardiau ym Mro Morgannwg (Tachwedd 2015)

Enw Safle	Llain/Darn	Statws
The Stables, Tresimwn	1	Preifat
Hawthorn Cottage, Twyn-yr-Odyn	1	Dros Dro
Hayes Road, Sili	17	Goddefir
Llangan	1	Heb Awdurdod

4. Methodoleg

4.1 Noda'r adran hon y fethodoleg i'w dilyn i gyflawni allbynnau'r astudiaeth hon. Noda'r Canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 106 y Ddeddf y gofynion i'r ALST a'r fethodoleg a'r dull cyfrifo angen a ddilynwyd i geisio mynd i'r afael â hwy a galluogi cwblhau ALST cyflawn a chadarn. Cyflawnwyd yr astudiaeth gan y Gwasanaeth Ymchwil Barn ac mae'r dull a ddefnyddiwyd yn cwmpasu meysydd craidd canlynol y gwaith:

- » Sefydlu Grŵp Llywio Project.
- » Nodi a dadansoddi unrhyw ffynonellau data.
- » Cyhoeddi'r asesiad llety.
- » Cynnal yr arolygon asesu llety.
- » Cyfrifo Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

4.2 Rhydd y camau isod grynodedb o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gwblhau'r astudiaeth hon.

Grŵp Llywio Project

4.3 Mae Canllaw ALST Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol bod Grŵp Llywio Project yn cael ei sefydlu i sicrhau bod yr astudiaeth yn cael ei llywio gan yr holl wybodaeth leol ac arbenigedd sydd ar

gael. Sefydlodd a rheolodd y Cyngor y Grŵp Llywio a'r unigolion a aeth i gyfarfodydd y Grŵp Llywio ym Mro Morgannwg oedd:

Ffigur 9 - Aelodau Grŵp Llywio ALST Bro Morgannwg

Enw	Sefydliad	Rôl
Alan Sinclair	Cyngor Bro Morgannwg	Swyddog Galluogi Fforddiadwy [Hwylusydd]
John Marks	Cyngor Bro Morgannwg	Uwch Gynllunydd
Hayley Selway	Cyngor Bro Morgannwg	Pennaeth Tai
Tim Greaves	Cyngor Bro Morgannwg	Swyddog Cydraddoldeb
Mike Ingram	Cyngor Bro Morgannwg	Rheolwr Gweithredol Tai
Cyng Bronwen Brooks	Cyngor Bro Morgannwg	Aelod Cabinet dros Dai
Pam Toms	Cyngor Bro Morgannwg	Arweinydd Tîm Atebion Tai a Chefnogi Pobl
Helen Jones	Cyngor Bro Morgannwg	Rheolwr Cefnogi Pobl a'r Strategaeth Tai
Cyng Anthony Bennett	Cyngor Bro Morgannwg	Cynrychiolydd Pwyllgor Craffu
Richard Paines	Heddlu De Cymru	Swyddog Cyswllt
Linda Brown	Cyngor Bro Morgannwg	Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol
John Raine	Cyngor Bro Morgannwg	Prif Gynllunydd
Stephanie Kenrick-Doyle	Cyngor Bro Morgannwg	Swyddog Cydlyniant Cymunedol Caerdydd a'r Fro
Steve Jarman	Gwasanaethau Ymchwil Barn	Ymgynghorydd Allanol

4.4 Fel y nodir yn y Canllawiau ALST, cyfrifoldeb allweddol y Grŵp Llywio oedd cytuno ar nodau ac amcanion yr astudiaeth; hyrwyddo buddion yr astudiaeth ymhlith aelodau'r Gymuned Teithwyr; helpu i adnabod aelwydydd sy'n byw mewn brics a mortar ac ar safleoedd a gwerylloedd heb awdurdod; rhoi mewnbyn gan randdeiliaid arbenigol i nodi'r angen lleol os yw'r wybodaeth ar gael, rhoi adborth ar y canlyniadau sy'n dod i'r amlwg o'r astudiaeth, a rhannu a hyrwyddo canlyniadau terfynol i aelodau'r Gymuned Teithwyr.

4.5 Ar adeg yr adroddiad hwn cynhaliwyd 3 chyfarfod y Grŵp Llywio ar 18 Mai 2015, 2 Mehefin 2015 a 26 Ionawr 2016.

Nodi a Dadansoddi Data

4.6 Cynhaliwyd adolygiad desg i gasglu a dadansoddi ystod o ddata eilaidd a gwybodaeth leol arall a ddefnyddiwyd i nodi a chefnogi gwaith i asesu'r angen am lety nawr ac yn y dyfodol. Yn anffodus nid fu modd defnyddio'r Adran Addysg. Gan fod y ffigurau mor fach ym Mro Morgannwg, pe rhyddheid y niferoedd a'r ardaloedd byddai'n hawdd iawn adnabod y teuluoedd hyn, gan arwain at bryderon diogelu data. Nododd yr Adran Addysg hefyd fod teuluoedd Teithwyr hefyd yn breifat iawn ac y gallai cysylltiadau gael eu niweidio'n hawdd pe rhennid y wybodaeth sensitif hon. Roedd yr ymateb hwn yn unol â'r ymateb a roddodd yr Adran Addysg i'r ORS wrth gynnal yr ALST blaenorol i Gyngor Bro Morgannwg.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys y canlynol:

- » Cofnodion cynllunio.
- » Data'r cyfrifiad.
- » Cofnodion safle a rhestri aros.
- » Cyfrif carafanau.
- » Cofnodion safleoedd/gwersyllfeydd heb awdurdod.
- » Gwybodaeth am geisiadau/apeliadau cynllunio.
- » Gwybodaeth am gamau gorfodi.
- » ALSTau presennol ac astudiaethau lleol perthnasol eraill.
- » Polisi, canllawiau ac arfer gorau cenedlaethol a lleol cyfredol.
- » Data'r Adran Addysg.

Hyrwyddo'r Asesiad Llety

4.7 Er mwyn sicrhau cyfraniad aelodau'r Gymuned y Teithwyr i sicrhau y gallent a'u bod yn barod i gymryd rhan yn y cyfweiliadau safle a chartref a rhoi gwybodaeth gywir, roedd yn bwysig codi cyhoeddusrwydd effeithiol a rhybuddio ymlaen llaw. Roedd hyn hefyd yn bwysig iawn o ran nodi aelwydydd sy'n byw mewn llety brics a mortar i'w cyfweld fel rhan o'r astudiaeth.

4.8 Trafodwyd y dull hwn o greu cyhoeddusrwydd ag aelodau'r Grŵp Llywio cyn dechrau ar y gwaith maes. Gwnaethai'r Grŵp Llywio hi'n glir iawn nad oedd ganddo'r wybodaeth a'r cysylltiadau yn y cymunedau hyn ac y byddent yn dibynnu ar ORS i roi'r wybodaeth hon a chynnal yr ymgynghoriad gofynnol er mwyn greu asesiad cadarn. Cytunwyd i'r Cyngor osod hysbysebion ar dudalen ymgynghori ei wefan. Hefyd, gosodwyd hysbyseb yn y Travellers Times ac yn World's Fair gan Lywodraeth Cymru. Cytunwyd hefyd y byddai cyfathrebu ar lafar rhwng aelodau'r Grŵp Llywio a chydweithwyr yn fodd priodol i gyfathrebu i geisio adnabod aelwydydd sy'n byw mewn tai brics a mortar sy'n derbyn gwasanaethau neu gymorth gan y Cyngor.

Ffigur 10 – Hysbyseb Gwefan ALST

AR GOLL

Cynnal yr Arolygon Asesu Llety.

Cyfweiliadau Safle

4.9 Drwy ymchwil desg a gwybodaeth gan y Grŵp Llywio, ceisiodd ORS nodi'r holl safleoedd, iardiau a gwersyllfeydd a awdurdodir a heb awdurdod ym Mro Morgannwg, a cheisiodd gynnal astudiaeth ddemograffig lawn o drigolion yr holl leiniau, fel sy'n ofynnol gan Ganllawiau Llywodraeth Cymru.

4.10 Ar ôl y gweithgareddau cyhoeddusrwydd a rhybuddio ymlaen llaw a gytunwyd, ymwelodd ymchwilwyr ORS â'r holl leiniau (gyda llythyr awdurdodi gan y Cyngor). Ceisient gynnal cyfweiliadau â thrigolion gan ddefnyddio'r cwestiynau a anfonwyd yng Nghanllawiau ALST.

4.11 Yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan Ganllawiau ALST, pan nad oedd modd cynnal cyfweiliad, cofnodwyd hyn gan gyfwelwyr ar yr holiadur a dychwelyd i bob safle hyd at ddwywaith yn rhagor.

Cyfweiliadau Brics a Morter

4.12 Yn ogystal â defnyddio eu harbenigedd eu hunain, gweithiodd ORS yn agos â'r Cyngor i sicrhau bod yr holl gyfleoedd yn cael eu defnyddio i ganfod aelwydydd sy'n byw mewn cartrefi brics a mortar i gyfrannu yn yr ALST gan fod hon yn broblem gyffredin a godir yn archwiliadau o'r Cynllun Lleol ac apeliadau cynllunio. Ceisiwyd cysylltu drwy ffynonellau gan gynnwys siarad ag aelodau'r Grŵp Llywio, siarad â phobl ar safleoedd, hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn deunydd print lleol a chenedlaethol gan gynnwys World's Fair a Travellers Times.

Cyfrifo Anghenion Llety Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe Deithiol

4.13 Mae Canllawiau ALST Llywodraeth Cymru'n gofyn am asesiad o ofynion lleiniau nawr ac yn y dyfodol ac yn nodi methodoleg fanwl i gwblhau hyn. Mae'n amrywio o'r dull a ddefnyddir fel arfer gan ORS ond fe'i dilynwyd at ddiben yr ALST hwn. Fel gydag unrhyw asesiad tai, mae'r cyfrifiad tanategol yn cynnwys nifer cymharol fechan o ffactorau. Yn yr achos hwn, y prif fater i leiniau preswyl yw cymharu cyflenwad y lleiniau sydd ar gael i'w meddiannau â'r galw presennol ac yn y dyfodol ymhlith y boblogaeth. Cafwyd y wybodaeth hon i fwydo i'r asesiad o angen o gyfuniad o

ymchwil desg a chanlyniadau cyfweliadau safle a chartrefi, ynghyd â gwybodaeth ychwanegol gan aelodau'r Grŵp Llywio a rhanddeiliaid eraill. Nodir y ffactorau allweddol ymhob un o'r elfennau hyn isod.

Cyflenwad preswyl presennol.

- » Lleiniau awdurdod lleol a feddiennir
- » Lleiniau preifat a awdurdodir a feddiennir
- » Lleiniau awdurdod lleol gwag a lleiniau preifat sydd ar gael
- » Lleiniau y disgwylir iddynt fod yn wag maes o law.
- » Lleiniau newydd awdurdod lleol, lleiniau preifat â chaniatâd cynllunio.

Galw preswyl presennol

4.14 Mae cyfanswm y galw preswyl cyfredol yn cynnwys yr elfennau canlynol: Roedd yn bwysig gwneud defnydd llawn o'r ymchwil desg a'r wybodaeth gan aelodau'r Grŵp Llywio i fynd i'r afael â phroblemau cyfrif ddwywaith (e.e. aelwydydd brics a morter a oedd hefyd ar y rhestr aros am lain):

- » Aelwydydd ar wersyllfeydd heb awdurdod.
- » Aelwydydd ar ddatblygiadau heb awdurdod
- » Aelwydydd cudd / wedi'u gorlenwi / dyblyg¹
- » Tai arferol – symud o frics a morter²
- » Aelwydydd newydd i gyrraedd o restrï aros/mewnfudo.

¹ Yn dilyn y canllawiau a nodir ym Mharagraffau 195-201 Canllawiau'r ALST

² Yn dilyn y canllawiau a nodir ym Mharagraffau 172-183 Canllawiau'r ALST

Galw yn y Dyfodol

4.15 Mae cyfanswm y galw yn y dyfodol yn deillio o ffurfio aelwydydd newydd dros gyfnod yr astudiaeth. Mae ORS wedi cynnal gwaith ymchwil helaeth i dwf y boblogaeth ac aelwydydd yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a Lloegr. Defnyddiwyd hwn i lywio'r elfen hon o Ganllawiau ALST Llywodraeth Cymru (gweler Paragraffau 203-209). Argymhellodd ein hymchwil gyfradd ffurfio aelwydydd cyfansawdd net yn seiliedig ar dystiolaeth leol, yn groeso i'r gyfradd twf 'a dderbynnir' o 3.00%.

4.16 Hefyd, mae gwybodaeth o'r cyfweliadau safle'n rhoi manylion am nifer gross yr aelwydydd newydd y disgwylir iddynt ffurfio o fewn 5 mlynedd gyntaf yr astudiaeth (er ei bod yn bwysig i netio hwn yn erbyn cyflenwad a nodwyd yn ystod 5 mlynedd gyntaf yr astudiaeth).

4.17 Seiliwyd y gyfradd ffurfio cyfansawdd net aelwydydd a ddefnyddir ar gyfer blynyddoedd 6-10 yr ymchwil ar dystiolaeth ddemograffig o gyfweliadau safle. Sail y cyfrifiad hwn fydd y ffigwr a gyrhaeddir ar gyfer 5 mlynedd gyntaf yr astudiaeth, sy'n cynnwys yr holl awydydd cyfredol a awdurdodir, yr holl aelwydydd a nodwyd fel galw cyfredol gan gynnwys y rhai ar restrï aros nad oeddent yn byw ar lain ar hyn o bryd, ac aelwydydd newydd sy'n ffurfio a nodir o gyfweliadau safle. Mae'r ymchwil a gynhaliodd ORS yn rhoi tystiolaeth i ategu'r defnydd o gyfradd ffurfio cyn ised ag 1.5% ar gyfer astudiaethau ALST. Bydd tystiolaeth i gefnogi'r gyfradd ffurfio ddethol ym Mhennod 6.

Canlyniadau Terfynol

4.18 Cyflwynir holl elfennau cyflenwad a galw mewn tabl syml fel y nodir yng Nghannllaw ALST yn Nhabl 3. Paratwir tabl ar wahân ar gyfer anghenion cyfredol ac yn y dyfodol Sipsiwn a Theithwyr, a

Phobl Sioe Deithiol gan y dylid ystyried eu hanghenion yn annibynnol gan fod eu hamgylchiadau'n wahanol i'r gymuned deithio ehangach.

Darpariaeth Trawsteithio

4.19 Mae'r ALST hefyd yn cynnwys asesiad o'r angen am unrhyw safleoedd trawsteithio neu fannau stopio brys i fodlon anghenion y Gymuned Deithio sydd naill ai'n teithio'n barhaol neu am ran o'r flwyddyn. Er mwyn ymchwilio'r angen posibl am ddarpariaeth drawsteithio wrth gyflawni'r ALST, mae ORS wedi cynnal dadansoddiad o gofnodion safleoedd a gwersyllfeydd heb awdurdod a nodwyd yn ystod yr ymchwil desg, a cheisio cynnal cyfweliadau â Sipsiwn a Theithwyr ar unrhyw safleoedd sy'n bodoli dros gwrs yr astudiaeth i nodi p'un ai angen llety trawsteithio sydd arnynt ynteu awydd i setlo'n fwy parhaol mewn unrhyw ardal benodol. Ystyriwyd data o'r Cyfrif Carafannau Teithwyr hefyd fel tystiolaeth ategol.

Cydymffurfiaeth â'r Rhestr Wirio Ymgysylltu

4.20 Mae'r tabl isod yn dangos bod yr ALST hwn wedi cydymffurfio â'r holl bwyntiau a nodir yn y Rhestr Wirio Ymgysylltu yng Nghanllawiau ALST Llywodraeth Cymru.

Ffigwr 11 - Rhestr Wirio Ymgysylltu

	Tasg	Cwblhawyd
1	<p>Ymweld â phob cartref Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe Deithiol a nodir drwy broses dadansoddi data hyd at deirgwaith yn ôl yr angen.</p> <p><i>Gwnaed ymdrechion i ymweld â phob safle hyd at deirgwaith onid y bu gwrthodiad cychwynnol i gael cyfweliad.</i></p>	✓
2	<p>Cyhoeddi manylion y broses ALST, gan gynnwys manylion cyswllt i alluogi aelodau'r gymuned i ofyn am gyfweliad, ar wefan yr awdurdod lleol, gwefan Travellers Times a chyhoeddiad World's Fair. Yn ogystal rhoddodd Llywodraeth Cymru hysbysebion.</p> <p><i>Yn ogystal â chyhoeddi manylion yr ALST yn Travellers Times a World's Fair, cyhoeddwyd manylion hefyd ar wefan y Cyngor. Hefyd teimlai aelodau'r Grŵp Llywio y dylid sicrhau cyhoedduswydd wyneb yn wyneb ac ar lafar.</i></p>	✓
3	<p>Ymgynghori â sefydliadau cymorth cymunedol fel y rhai yn Atodiad 1.</p> <p><i>Cafwyd trafodaethau â staff o Sipsiwn a Theithwyr Cymru, Urdd y Bobl Sioe a Chymdeithas y Bobl Sioe Annibynnol. Cynhaliwyd sgwrsiau cychwynnol dros y ffôn a thros e-bost â chynrychiolwyr o Sipsiwn a Theithwyr Cymru – yn bennaf i ganfod a gawsant unrhyw gysylltiadau ehangach yn y gymuned teithwyr yn byw mewn tai brics a mortar, ac yn ail i weld a allent gynorthwyo â chael mynediad i safle Sili (Hayes Road). Yn anffodus ni chafwyd rhagor o wybodaeth. Cyfwelwyd â Phroject Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd (Sipsiwn a Theithwyr Cymru erbyn hyn) yn ystod yr ALST diwethaf a defnyddiwyd gwybodaeth o'r cyfweliad hwn hefyd i ategu'r astudiaeth newydd. Cafwyd trafodaeth ag Urdd y Bobl Sioe. Cwblhawyd cyfweliad ffôn â Mr Danter o ran gweithgareddau yn y Barri – a chafodd ei gyfweld hefyd yn ei iard fel rhan o ALST Swydd Gaerloyw.</i></p>	✓
4	<p>Datblygu rhestr aros Awdurdod Lleol i leiniau a thai, sy'n hygyrch ac yn cael ei chyfleu i</p>	✓

aelodau'r gymuned.

Gan nad oes safle cyhoeddus, nid oes ar hyn o bryd restr aros. Ond bydd yr Adran Tai'n arwain y blaen wrth sefydlu a chynnal rhestr aros lleiniau ym Mro Morgannwg. Fe'i hyrwyddir ar wefan y Cyngor i gyd-daro â'i lansio, caiff llythyrau eu hanfon at holl breswylwyr safleoedd i roi gwybod iddynt am y broses gofrestru. Bydd hyn ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2016.

- 5 Ymdrechu i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr ar Grŵp Llywio Project ALST. ✓

Oherwydd nifer fechan yr aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg, nid oedd modd annog aelod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr i fod ar y Grŵp Llywio.

- 6 Sicrhau bod manylion cyswllt a roddir i'r awdurdod lleol gan aelodau'r gymuned drwy'r broses arolygu yn cael eu defnyddio a bod angen yn cael ei asesu. ✓

Cysylltwyd â phob cyswllt a roddwyd i a gan yr awdurdod lleol drwy gyfuniad o gyfweiliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb ag aelodau'r Gymuned Deithio.

- 7 Ystyried cynnal digwyddiadau gwybodaeth ALST ar safleoedd (neu'n agos) i egluro pam y dylai aelodau'r gymuned gyfrannu at annog trigolion safleoedd i gynnwys eraill nad oeddent o bosibl yn hysbys i'r awdurdod lleol. ✓

Oherwydd anawsterau gydag aelwydydd ar Hayes Road yn ystod yr ALST diwethaf a hon, a'r anawsterau wrth nodi unrhyw aelwydydd mewn cartrefi brics a mortar (dim ond 6 a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011), penderfynwyd na fyddai gwerth ychwanegol wrth gynnal digwyddiad gwybodaeth.

5. Canfyddiadau'r Arolwg

Cefndir

5.1 Nododd yr ymchwiler desg, gwybodaeth ychwanegol gan aelodau'r Grŵp Llywio a chyfweiliadau safle cychwynnol gyfanswm o 4 safle Sipsiwn a Theithwyr a dim iardiau Pobl Sioe Deithiol ym Mro Morgannwg.

Ffigur 12 - Safleoedd ym Mro Morgannwg (Ionawr 2016)

Enw Safle	Llain	Statws
The Stables, Tresimwn	1	Preifat
Hawthorn Cottage, Twyn-yr-Odyn	1	Dros Dro
Hayes Road, Sili	17	Goddefir
Llangan	1	Heb Awdurdod

5.2 Ceisiwyd cynnal cyfweiliadau ar y safleoedd a'r iardiau yn ystod Rhagfyr 2015 ac Ionawr a Chwefror 2016, ond dim ond 1 cyfweiliad llwyddiannus a gynhaliwyd yn unol â'r Canllawiau ar draws y 4 safle. Cafwyd dau gyfarfod â Theithwyr safle Hayes Road, Sili gan Tai Pawb a ymgysylltodd â 12 preswlydd. Nodwyd bod un safle heb ei feddiannu ers dyfarnu caniatâd cynllunio mewn apêl yn 2012 ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr un llain a gwrthodwyd cyfweiliad yn y ddau safle arall. Yn ogystal cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb ag 1 aelwyd Pobl Sioe Deithiol yn byw ar y safle yn Stroud sydd ar hyn o bryd yn rheoli'r ffair yn Ynys y Barri, ac 1 aelwyd

Pobl Sioe Deithiol yn byw mewn llety dros dro. Ni nodwyd unrhyw gysylltiadau mewn brics a morter er gwaetha'r ymdrechion a wnaed gan aelodau'r grŵp llywio a'r cyhoeddusrwydd.

3 Ymgysylltodd rhai preswylwyd ond ni chwblhawyd unrhyw holiaduron aelwydydd

Ffigur 13 – Cyfweiliadau a gwblhawyd ym Mro Morgannwg (Ionawr 2016)

Enw Safle/lard	Lleiniau	Cyfweiliadau	Gwrthodwyd
The Stables, Tresimwn	1	0	0
Hawthorn Cottage, Twyn-yr-Odyn	1	1	0
Llangan	1	0	1
Hayes Road, Sili	17	0	17
Pobl Sioe Deithol	–	2	0

Log Cyfweld

5.3 Mae copi o'r Log Cyfweld yn **Atodiad B**.

Trosolwg a Demograffeg Preswylwyr

5.4 Gan na chynhaliwyd ond un cyfwelad ni theimlir bod modd rhoi trosolwg cyffredinol o nodweddion y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg. Yn hytrach nodir naratif isod i bob un o'r safleoedd yr ymwelwyd â nhw. Mae hefyd yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd wrth baratoi'r ALST blaenorol pan oedd modd cadarnhau bod yr un aelwydydd ar yr un safleoedd.

Crynodeb Cyfweld

Safle Preifat

The Stables, Tresimwn

Aeth staff o ORS i'r safle yn The Stables yn Rhagfyr 2015. Dyfarnwyd caniatâd cynllunio llawn i'r safle yn dilyn apêl yn 2012. Nid oedd y safle wedi'i feddiannu ar adeg yr ymweliad a chadarnhawyd gan gymydog nas meddiannwyd, er gwaethaf dyfarnu caniatâd i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr un llain ym Medi 2012. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae perchennog y safle wedi gwneud apêl yn erbyn cyflwyno hysbysadau gorfodi iddo o ran defnydd preswyl tir ac adeiladau mewn mannau eraill ym Mro Morgannwg.^{5.5} Nid yw'r apelydd wedi cyflwyno unrhyw ystyriaethau polisi penodol Sipsiwn a Theithwyr wrth amddiffyn ei apêl ac mae'r apêl yn dal i fynd rhagddi ar adeg ysgrifennu hwn.

Safle Dros Dro

Hawthorn Cottage, Twyn-yr-Odyn

5.6 Ymwelodd staff o'r ORS â'r safle dros dro yn Hawthorn Cottage ym mis Rhagfyr 2015. Dyfarnwyd caniatâd cynllunio dros dro i'r safle am 3 blynedd yn dilyn apêl yn 2014. Mae hyn oherwydd y daw i ben ym mis Rhagfyr 2017.

5.7 Meddiannwyd y safle ar adeg yr astudiaeth a chwblhawyd cyfweiliad â'r teulu sy'n byw yno. Roedd y meddiannwyr yn cynnwys 2 oedolyn a 2 blentyn bach. Nid oedd aelwydydd cudd neu ddyblyg wedi'u nodi ac nid oedd angen llain ar unrhyw aelod o'r aelwyd ar gyfer ei hun dros y pum mlynedd nesaf.

5.8 Roedd y trigolion yn fodlon ar eu llety presennol, ac wedi byw yno ers rhwng 2 a 5 mlynedd, ac er nad oes gan y safle ond ganiatâd cynllunio dros dro, dywedont nad oeddent yn bwriadu symud. Nid ydynt wedi gwrsylla ar ymyl y ffordd yn y gorffennol ond teimlent fod angen mwy o ddarpariaeth trawsteithio er na ddywedont ym mhle.

Safle a Oeddefir

Hayes Road, Sili

5.9 Ymwelodd staff o'r ORS â'r safle heb awdurdod yn Sili ym mis Ionawr 2016 ac er iddynt gael mynediad i'r Safle gwrthododd y preswylwyr a oedd yno gael eu cyfweld. Dywedodd sawl un y dywedwyd wrthynt i beidio â siarad â chyfwelwyr ORS ond dywedodd rhai yr ystyrient gael eu cyfweld pe byddent yn cael llythyr yn nodi diben yr astudiaeth. Anfonwyd llythyr at holl drigolion y safle ym mis Ionawr 2016 ond ni chafwyd unrhyw ymatebion.

5.10 Ar ôl cyfarfod y Grŵp Llywio ar ddiwedd mis Ionawr i drafod ymhellach opsiynau i ymgysylltu â phreswylwyr yn byw ar y safle, gwnaed ymweliad aflwyddiannus arall gan gynrychiolydd o Heddlu De Cymru. Cafodd wybod fod y preswylwyr o'r farn fod yr holl faterion yr oeddent am eu codi â'r Cyngor wedi'u cynnwys mewn Adroddiad Lles a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2015. O ganlyniad gwnaed ymgais pellach i ymgysylltu â'r preswylwyr ar ddiwedd mis Chwefror gan gynrychiolwyr o Tai Pawb.

5.12 Roedd yn rhannol lwyddiannus a gallai staff o Tai Pawb siarad am gryn amser â nifer o'r preswylwyr yn byw yn Hayes Road ar hyn o bryd. Hunan-adnabu'r preswylwyr eu hunain fel cyfres o Deithwyr Oes Newydd a Phobl Sioe Deithiol ac mae rhai yn gweithio mewn ffeiriau a gwyliau. Gallai Tai Pawb gadarnhau bod 25 o oedolion a 5 plentyn yn byw yno – ond ni alluont gadarnhau union nifer yr aelwydydd na pha faint safle y byddai ei angen.

5.13 O ran anghenion yn y dyfodol, yn ystod y cyfweiliadau diweddaraf a gynhaliwyd gan Tai Pawb, cadarnhaodd y preswylwyr eu bod am geal darn o dir y gallent ei reoli a'i ddylunio eu hunain. Rhywbeth gydag ardal i dyfu llysiâu, gyda stand caled ond nid yn stand caled i gyd, ardal chwarae i blant, ardal gymunedol dan do i fwyta a gweithgareddau cymdeithasol a gweithdy dan do. Dywedont y gallai rhai hoffi tai bach ac ystafelloedd ymolchi arferol ond y byddai'n well gan eraill dai bach compostio. Roeddent am gael rhywbeth mwy ecogyfeillgar fel ynni'r haul ac ati. Yn syml, dim byd tebyg i'r hyn a awgryma canllawiau dylunio safle Llywodraeth Cymru er bod angen iddynt fod yn agos at gysylltiadau trafndiaeth gan fod rhai'n gweithio ond nid yn gyrru. Awgrymont ymddiriedolaeth tir cymunedol ac maent yn awyddus i reoli unrhyw safle eu hunain.

5.14 Felly, at ddiben yr ALST mae'r angen cyfredol ac yn y dyfodol i breswylwyr safle Hayes Road yn seiliedig ar gyfuniad o'r canlyniadau o'r ALST blaenorol, canlyniadau'r Asesiad Lles diweddar a chanlyniadau'r ymgysylltu a gwblhawyd gan Tai Pawb. Nodir hyn yn ar wahan o'r angen sy'n deillio o'r safleoedd Sipsiwn a Theithwyr eraill ym Mro Morgannwg.

5.15 Nododd yr ALST blaenorol angen i ddarparu am 17 o aelwydydd yn byw ar y safle, ac nad oedd unrhyw un o'r trigolion hyn am fyw ar safle Sipsiwn a Theithwyr cyhoeddus ffurfiol. Yn absenoldeb gwybodaeth ddiweddarach defnyddir y ffigur o 17. Derbyniwyd y ffigur mewn egwyddor gan Arolygydd Cynllunio mewn apêl ddiweddar a gafwyd ym Mro Morgannwg (Cyf:APP/Z6950/A/14/2212012).

Safle Heb Awdurdod

Llan-gan

5.16 Ymwelodd staff o ORS â'r safle heb awdurdod yn Llangan yn Hydref 2015. Lleolir y safle ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor ac nid oes ganddo ganiatâd cynllunio. Ond, o ystyried yr amser sydd wedi pasio ers i ddefnydd preswyl y safle ddechrau, pe cyflwynid cais am dystysgrif cyfreithlondeb i'r Cyngor dan adran 191 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) o ran defnyddio'r safle at ddibenion preswyl, mae'n debygol y câi tystysgrif ei dyfarnu.

5.17 Gwrthododd meddiannwr y safle gael ei gyfwrdd oni threfnwyd hynny drwy gyfreithiwr. Er gwaethaf ymdrechion i gysylltu drwy gyfreithiwr nid oedd modd cynnal cyfweiliad. Cadarnhaodd y cysylltiad a wnaed drwy waith maes i'r ALST blaenorol fod y safle wedi'i feddiannu gan fenyw a'i merch a chadarnhawyd i'r ORS nad oedd ganddynt angen brys bryd hynny.

Pobl Sioe Deithiol

5.18 Er nad oes iardiau ffurfiol ym Mro Morgannwg llwyddodd cyfweiliad i gwblhau 2 gyfweiliad ag aelwydydd Pobl Sioe Deithio. Mae un o'r rhain yn rheoli'r ffair yn Ynys y Barri ac mae'r llall yn byw mewn camper-fan yn ardal y Barri.

5.19 Mae'r aelwyd sy'n rheoli ffair Ynys y Barri ar hyn o bryd â llety parhaol mewn iard yn Stroud. Dywedodd fod ganddynt un uned llety dros dro (tymhorol) yn y ffair a bod hyn at ddibenion diogelwch i sicrhau bod rhywun yn y safle bob amser yn ystod tymor y ffair. Mae hyn yn bodloni'r holl lety tymhorol ar hyn o bryd.

5.20 O ran gweithredwyr y reidiau eraill – nodwyd y gallai'r rhain newid bob blwyddyn a'u bod yn cael eu dewis ym mis Chwefror. Tra cynhelir y ffair, ni anogir dod â charafanau preswyl ar safle'r ffair. Mae llawer o'r gweithredwyr yn lleol ac yn byw mewn tai, neu mae ganddynt iardiau parhaol eraill yng Nghymru a Lloegr.

5.21 Mae'r aelwyd eraill a gyfweiliad wrthi'n ceisio datblygu dull cydweithredol at ddatblygu iard newydd rhywle ar hyd Coridor yr M4 yn ne Cymru ac wrthi'n ystyried llain o dir ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gwnaethant hefyd gadarnhau nad ydynt yn gofyn i'r Cyngor ddarparu iard newydd iddynt.

6. Asesu Anghenion Llety

6.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth o lleiniau ychwanegol y mae ei hangen ar Gyngor Bro Morgannwg am gyfnod byr o 5 mlynedd i gyfnod llawn yr ALST a chyfnod y Cynllun Datblygu o 10 mlynedd. Mae'n cynnwys angen cyfredol nas bodlonir ac angen sy'n debygol o godi yn y dyfodol. Mae'r cyfnod amser hwn yn galluogi rhagfynegiadau cadarn i gael eu gwneud am ddarpariaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth sydd yn yr astudiaeth hon a hefyd o ffynonellau data eilaidd.

6.2 Mae'r adran hon yn seiliedig ar gyfuniad o wybodaeth o'r arolygon ar y safle, cofnodion cynllunio, aelodau'r Grŵp Llywio, a chan randdeiliaid eraill. Mewn nifer o achosion, ni ddefnyddir y data ar ei ben ei hun ond yn hytrach fe'i defnyddir i ddilysu gwybodaeth o gofnodion cynllunio a ffynonellau eraill.

6.3 Nid yw'r adran hon ond yn canolbwyntio ar gyfanswm y ddarpariaeth ychwanegol y mae ei angen yn yr ardal ond hefyd yn holi a oes angen unrhyw safleoedd trawsteithio a/neu fannau stopio brys.

6.4 Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru'n gofyn am asesiad o anghenion lleiniau cyfredol ac yn y dyfodol ac mae'n darparu fframwaith a ragnodir i wneud y cyfrifiad hwn. Dilynwyd y fframwaith hwn at ddiben yr ALST hwn.

6.5 Fel gydag unrhyw asesiad o'r angen am dai mae modd gwahanu'r cyfrifiad tanategol yn nifer gymharol fechan o ffactorau. Yn yr achos hwn, y prif fater i leiniau preswyl yw cymharu cyflenwad y lleiniau sydd ar gael i'w meddiannau â'r galw presennol ac yn y dyfodol. Nodir y ffactorau allweddol ymhob un o'r elfennau hyn yn yr adrannau isod.

Yr Angen i Sipsiwn a Theithwyr

Cyflenwad preswyl presennol.

- » Lleiniau awdurdod lleol a feddiennir
- » Lleiniau preifat a awdurdodir a feddiennir
- » Lleiniau awdurdod lleol gwag a lleiniau preifat sydd ar gael
- » Lleiniau y disgwylir iddynt fod yn wag maes o law.
- » Lleiniau newydd awdurdod lleol, lleiniau preifat â chaniatâd cynllunio.

Galw preswyl presennol

- » Aelwydydd ar wersyllfeydd heb awdurdod.
- » Aelwydydd ar ddatblygiadau heb awdurdod
- » Aelwydydd cudd / wedi'u gorlenwi / dyblyg
- » Tai arferol – symud o frics a mortar⁴
- » Aelwydydd newydd i gyrraedd o restrri aros/mewnfudo.⁵

⁴ Yn dilyn y canllawiau a nodir ym Mharagraffau 195-201 Canllawiau'r ALST

⁵ Yn dilyn y canllawiau a nodir ym Mharagraffau 172-183 Canllawiau'r ALST

Galw yn y Dyfodol

^{6.6} Mae cyfanswm y galw yn y dyfodol yn deillio o ffurfio aelwydydd newydd dros gyfnod yr astudiaeth. Mae gwybodaeth o'r cyfweiliadau safle'n rhoi manylion am nifer gross yr aelwydydd newydd y disgwylir iddynt gael eu ffurfio o fewn 5 mlynedd gyntaf yr astudiaeth (er ei bod yn bwysig i netio hwn yn erbyn cyflenwad a nodwyd yn ystod 5 mlynedd gyntaf yr astudiaeth). Seiliwyd y gyfradd ffurfio aelwydydd cyfansawdd a ddefnyddir ar gyfer blynyddoedd 6-10 yr ymchwil ar dystiolaeth ddemograffig o gyfweiliadau safle.

Cyflenwad Preswyl Cyfredol a Awdurdodir ac a Oddefir

^{6.7} I asesu'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr mae'n bwysig deall cyfanswm y lleiniau presennol a'u statws cynllunio. Er bod dau safle y mae'r Cyngor yn berchen arnynt wedi'u meddiannu ar hyn o bryd nid oes unrhyw safleoedd cyhoeddus ym Mro Morgannwg sydd â chaniatâd cynllunio. Fodd bynnag mae un o'r safleoedd y mae'r Cyngor yn berchen arno wedi'i feddiannu gan 17 o deuluoedd wedi cael sicrwydd na chymerir unrhyw gamau gorfodi Cynllunio yn erbyn y Safle yn ystod y cyfnod 4 mlynedd dilynol (h.y. am y cyfnod 5 mlynedd cyntaf o'r ALST hwn). Yn unol â Chanllawiau Paragraff 146 Canllawiau ar Gyflawni Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru (Mai 2015), mae modd ystyried y safle a oddefir hwn o fewn y cyflenwad preswyl cyfredol am 5 mlynedd gyntaf yr ALST. Mae hefyd un safle preifat sydd â chaniatâd cynllunio llawn, un â chaniatâd cynllunio dros dro (tan fis Rhagfyr 2017) a does dim darpariaeth trawsteithio gyhoeddus neu breifat.

Ffigur 14 – Cyfanswm y safleoedd a awdurdodir ac a oddefir ym Mro Morgannwg ym mis Ionawr 2016

Categori	Safleoedd	Lleiniau	Meddiennir
Safleoedd preifat â chaniatâd cynllunio parhaol	1	1	0
Safleoedd preifat â chaniatâd cynllunio dros dro	1	1	1
Safleoedd cyhoeddus (Cyngor a Darparwyr Cofrestredig)	0	0	0
Safleoedd a oddefir Darpariaeth trawsteithio	1	17 ⁶	17

gyhoeddus	0	0	0
Darpariaeth trawsteithio breifat	0	0	0

6.8 Cam nesaf y broses yw asesu faint o le sydd, neu a fydd, ar gael ar safleoedd presennol i benderfynu ar gyflenwad y lleiniau sydd ar gael. Y prif ffyrdd o ddysgu hyn yw drwy:

- » **Lleiniau gwag cyfredol** – Nid oes safleoedd cyhoeddus ym Mro Morgannwg.» Hefyd nid yw'r llain wag yn The Stables ar gael i'w feddiannu'n gyffredinol gan ei fod yn safle teuluol preifat.
- » **Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag** – Nid oes unrhyw un o'r rhain.
- » **Lleiniau sydd â chaniatâd cynllunio** – Nid oes lleiniau â chaniatâd cynllunio nas gweithredwyd eto.

6.9 Rhydd hyn ffigur ar gyfer **cyfanswm cyflenwad dim lleiniau**.

6 Daw'r lleiniau hyn yn rhai galw preswyl ar gyfer y cyfnod 2021-26

Ffigur 15 – Crynodeb o Gyflenwad Lleiniau ym Mro Morgannwg ym mis Ionawr 2016

Categori	Lleiniau
Lleiniau gwag cyfredol	0
Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag	0
Symud i frics a mortar	0
Allfudo	0
Lleiniau nas gweithredwyd gyda chaniatâd cynllunio	07
CYFANSWM CYFLENWI	0

6.10 Er bod safle a oddefir yn Hayes Road y gellir ei ystyried o fewn y cyflenwad preswyl cyfredol am 5 mlynedd gyntaf yr ALST (yn unol â pharagraff 146 Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gyflawni Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr – Mai 2015), gan fod y safle yn un 'a oddefir' nis ystyriwyd fel un â lleiniau gwag neu ag unrhyw leiniau a ddaw ar gael yn y dyfodol. Ar hynny, er bod safle un llain preifat gwag â chaniatâd cynllunio yn Nhresimwn, ni chafodd ei gynnwys yn y cyflenwad a nodir uchod gan nas sefydlwyd bod y safle ar gael i'w rentu (gweler paragraff 157 Canllawiau Llywodraeth Cymru).

Galw preswyl presennol

6.11 Cam nesaf y broses yw asesu angen cyfredol a phenderfynu sawl aelwyd sydd wrthi'n chwilio am leiniau yn yr ardal.

Safleoedd Cyfredol heb Awdurdod ac a Oddefir

6.12 Un broblem â nifer o Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yw eu bod yn aml yn cyfri'r holl garafanau ar ddatblygiadau a gwersyllfeydd nas awdurdodir fel rhai ag angen llain yn yr ardal, ond yn ymarferol mae nifer ond yn ymweld neu yno am gyfnod byr, a gallai rhai fod ar safleoedd a oddefir at ddibenion cynllunio'n unol â pharagraff 146 Canllawiau ALST Llywodraeth Cymru.

6.13 Er bod yr astudiaeth wedi nodi 2 safle heb awdurdod ym Mro Morgannwg, gan fod meddianwyr safle Hayes Road wedi cael sicrwydd na chymerid unrhyw gamau gorfodi o fewn y 5 mlynedd nesaf, dim ond meddianwyr safle heb awdurdod Llangan fydd yn y galw cyfredol at ddibenion yr ALST hwn.

7 Ni ellir nodi'r safle yn Nhresimwn fel cyflenwad gan na allai'r astudiaeth sefydlu a yw ar gael at feddiannaeth gyffredinol ai peidio.

6.14 O ganlyniad mae **1 llain heb awdurdod** ym Mro Morgannwg nad ystyrir yn un a oddefir yn unol â'r cyngor a roddwyd ym mharagraff 146 Canllawiau ALST Llywodraeth Cymru. Yn ogystal daw'r 17 llain ar y safle yn Sili yn rhai heb awdurdod ar ôl cyfnod 5 mlynedd cyntaf yr ALST.

6.15 Mae hefyd **1 llain dros dro** (tan fis Rhagfyr 2017) ym Mro Morgannwg.

Ffigwr 16: Cynodeb o Leiniau Heb Awdurdod a Dros Dro ym Mhor Morgannwg ym mis Ionawr 2016

Safle	Lleiniau
Lleiniau dros dro	1
Lleiniau heb awdurdod	1
CYFANSWM	2

Lleiniau wedi'u Gorboblogi

6.16 Ceisiodd yr ymweliadau safle nodi aelwydydd cudd neu ddyblyg ar safleoedd a awdurdodir ag angen llain ar unwaith. Aelwyd cudd yw un sy'n byw mewn cartref aml-deulu yn ogystal â'r prif deulu, fel cwpl ifanc yn byw â rhieni, ag angen llety teuluol ar wahân ond yn methu â'i gael gan nad oes digon o le ar safleoedd cyhoeddus neu breifat, neu un aelod o'r teulu neu unigolyn sy'n byw mewn uned deuluol ag angen llety ar wahân. **Ni nododd** y wybodaeth ddemograffig a gasglwyd yn ystod y cyfweliadau safle **unrhyw aelwydydd cudd**.

Tai Arferol

6.17 Mae canfod aelwydydd mewn cartrefi mewn tai brics a mortar wedi'i amlygu'n aml fel problem mewn Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr. Nododd Cyfrifiad Poblogaeth y DU 2011 4 cartref Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig ym Mro Morgannwg yn byw mewn tai brics a mortar.

6.18 Fel y nodwyd gynt, ceisiodd ORS nodi Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn tai brics a mortar a gweithiodd yn agos â rhanddeiliaid, Swyddogion y Cyngor, a'r sawl a gyfwelwyd ar safleoedd i nodi aelwydydd i'w cyfweld. Ni arweiniodd y Broses hon at gyfweld ag aelwydydd. Mae hyn yn gyson ag ALSTau blaenorol.

Aelwydydd Newydd

6.19 Nid oes safleoedd cyhoeddus ym Mro Morgannwg felly nid oes rhestr aros.

6.20 Mae angen i asesiadau hefyd ystyried mewnfudo (aelwydydd ag angen llety sy'n symud i ardal o'r tu allan) ac allfudo (aelwydydd sy'n symud o ardal yr astudiaeth). Fel arfer nid yw arolygon safle ond yn nodi nifer fechan o aelwydydd sy'n mewnfudo neu'n allfudo ac nid yw'r data fel arfer yn ddigon cadarn i gyfleu tueddiadau hirdymor. Ar lefel genedlaethol, nid oes unrhyw fewnfudo net o Sipsiwn a Theithwyr ledled y DU, ond mae'r asesiad hwn wedi ystyried effeithiau mudo lleol ar sail y dystiolaeth leol orau sydd ar gael.

6.21 Mae tystiolaeth o gyfweliadau ag aelwydydd a thrafodaethau Grŵp llywio wedi'i hystyried yn ofalus, ond heb nodi unrhyw ffynonellau symud penodol oherwydd mewnfudo ac allfudo. Y tu hwnt i hyn, yn hytrach nag asesu aelwydydd mewnfudol sy'n ceisio datblygu safleoedd newydd yn yr ardal, argymhellir asesu pob achos fel awydd i fyw yn yr ardal a bod rheolau meini prawf y safle'n cael eu dilyn ymhob safle newydd. Felly mae'n bwysig i'r Cyngor ddal i ddilyn ei bolisiau cynllunio seiliedig ar feini prawf i unrhyw safleoedd newydd.

Darpariaeth Lleiniau Ychwanegol: Angen yn y Dyfodol

6.22 Cam nesaf y broses yw asesu'r angen yn y dyfodol a phenderfynu faint o aelwydydd sy'n debygol o geisio lleiniau yn yr ardal yn y dyfodol yn ystod 5 mlynedd gyntaf yr asesiad ac ar gyfer cyfnod hwy'r Cynllun Datblygu 10 mlynedd. Mae dwy elfen allweddol o angen yn y dyfodol.

- » Twf poblogaeth ac aelwydydd
- » Symud i/o safleoedd a mudo

Twf poblogaeth ac aelwydydd

6.23 Yn genedlaethol, rhagdybiwyd yn gyffredin ffurfiad aelwydydd a chyfradd twg o 3.00% net y flwyddyn mewn Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr lleol, er nad oes tystiolaeth ystadegol o aelwydydd yn tyfu mor gyflym. Y canlyniad oedd chwyddo gofynion cenedlaethol a lleol ar gyfer lleiniau ychwanegol mewn modd afrealistig. Yn y cyd-destun hwn, mae ORS wedi paratoi *Nodyn Technegol ar Ffurfiad Aelwydydd a Chyfraddau Twf*. Nodir y prif gasgliadau yma ac mae'r Nodyn Technegol llawn yn **Atodiad C**.

6.24 Mae'r sawl sydd wedi ceisio cyflwyno tystiolaeth o gyfraddau twf aelwydydd i net blynyddol uchel i Sipsiwn a Theithwyr weithiau wedi dibynnu ar gynnydd yn nifer y carafanau, fel yr adlewyrchir yn y Cyfrif Carafanau.

Ond, mae data Cyfrif Carafanau'n annibynadwy ac yn anwadal – felly'r unig ffordd gywir o ragfynegi twf y boblogaeth ac aelwydydd yn y dyfodol yw drwy ddadansoddiad demograffeg manwl.

6.25 Mae'r ymchwil a gynhaliwyd gan ORS wedi nodi y gallai'r twf ym mhoblogaeth genedlaethol y Sipsiwn a Theithwyr fod cyn ised ag 1.50% y flwyddyn – llawer llai na'r 3.00% y flwyddyn a ragdybir yn gyffredinol, ond mae dal yn fwy na mewn cymuned sefydledig. Hyd yn oed gan ddefnyddio rhagdybiaethau eithafol ac afrealistig, mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth bod twf poblogaeth ac aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn fwy na 2.00% y flwyddyn.

6.26 Mae'r gyfradd twf net a ragdybir yn aml o 3.00% y flwyddyn yn afrealistig a byddai'n gofyn am dystiolaeth ystadegol gadarn cyn ei defnyddio at ddibenion cynllunio. Yn ymarferol, mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn cefnogi cyfradd twf aelwydydd net genedlaethol o 1.50% y flwyddyn i Sipsiwn a Theithwyr.

6.27 Mae 2 fesur o dwf caelwydydd a ddefnyddir i asesu angen yn yr astudiaeth hon. Defnyddiwyd ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd cyntaf dystiolaeth o ffurfiad aelwydydd *gros* (twf teuluol) o Adran D yr Arolwg Aelwydydd, wedi'i *netio i ffwrdd* yn erbyn trosiant lleiniau 1 flwyddyn a lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag. Defnyddiwyd cyfradd ffurfio aelwydydd cyfansawdd *net* a ddefnyddir ar gyfer blynyddoedd 6-10 yr ymchwil ar dystiolaeth ddemograffig o gyfweiliadau safle.

6.28 Er i'r cyfweiliadau safle nodi **cyfanswm o ddim aelwydydd newydd** o ganlyniad i dwf teuluoedd dros 5 mlynedd gyntaf yr asesiad a **dim trosiant lleiniau** mae 17 o aelwydydd ar safle Sili lle na chwblhawyd unrhyw gyfweiliadau llawn. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr asesiad a gwblhawyd gan Tai Pawb fod y plant oedd yn byw ar y safle'n rhai cyn ysgol neu ysgol gynradd. O ganlyniad **ni nodwyd twf aelwydydd am gyfnod 5 mlynedd cyntaf yr ALST**.

6.29 Dylid cyfrifo'r gyfradd am weddill cyfnod y Cynllun Datblygu i 2026 (5 mlynedd 2021-2026) yn seiliedig ar ddemograffeg gyffredinol y boblogaeth. Mae'r Nodyn Technegol yn cefnogi'r gyfradd twf net genedlaethol ar gyfer y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr o 1.50% gan ddefnyddio sail boblogaeth o Gyfrifiad 2011 lle roedd tua 36% o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr dan 18 oed. O'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn byw yn ardal Bro Morgannwg, mae 2 blentyn ifanc yn byw ar safle Gwenfô a deallir nad oes na phlant na phobl ifanc yn byw ar safle Llangan. Felly, at ddibenion yr ALST, mae ORS o'r farn ei bod yn briodol caniatáu am dim twf aelwydydd tymor hwy i'r boblogaeth Sipsiwn a

Theithwyr yn byw ar y ddau safle hyn. Gan nad oedd modd cwblhau cyfweiliadau strwythuredig yn unol â'r Canllaw ni chafwyd ond trafodaethau â chartref yn byw ar safle Sili gan Tai Pawb, a nodwyd plant yn byw ar y safle, defnyddiwyd y gyfradd ffurfiad net genedlaethol o 1.50% i'r 17 cartref hyn am weddill cyfnod y Cynllun Datblygu 2021-2026. Mae hyn yn deillio o **1 aelwyd ychwanegol drwy ffurfio aelwyd newydd.**

Angen Cyffredinol Bro Morgannwg

^{6.30}Felly craffwyd yn ofalus ar bob elfen ar y cyfrifiad angen a cham nesaf y Broses yw cydbwysu angen cyffredol ac yn y dyfodol yn erbyn cyflenwad i greu angen cyffredinol i Fro Morgannwg yn dilyn y dull a nodir yng Nghanllawiau ALST Llywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol gan Ganllaw Llywodraeth Cymru gynnal 2 asesiad angen - am 5 mlynedd gyntaf yr ALST ac i gyfnod llawn y Cynllun Datblygu sydd yn achos Bro Morgannwg hyd at 2026. Yn dilyn y dull hwn y ddarpariaeth yr amcangyfrifir sydd ei hangen ym Mro Morgannwg am y 5 mlynedd gyntaf y **2 llain** yn ogystal â'r 17 sydd eisoes yn Sili. Y ddarpariaeth yr amcangyfrifir sydd ei hangen ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun Datblygu (blynyddoedd 6-0) yw **18 llain** ychwanegol. Mae hyn gyfystyr ag **20 llain ychwanegol** am gyfnod 10 mlynedd llawn y Cynllun Datblygu. Bydd hyn yn mynd i'r angen ag anghenion yr holl aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr y mae modd eu nodi.

Ffigur 17 – Lleiniau Ychwanegol Sipsiwn a Theithwyr sydd eu hangen ym Mro Morgannwg o 2016-2026 Cyflenwad Preswyl Cyffredol Nifer y Lleiniau

A. Lleiniau awdurdod lleol a feddiennir		
B. Lleiniau preifat awdurdodedig/lleiniau a oddefir a feddiennir		17
Cyfanswm		17
Cyflenwad Preswyl a Gynllunnir		Nifer y Lleiniau
C. Lleiniau awdurdod lleol gwag a lleiniau preifat sydd ar gael		
D. Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag maes o law		
E. Lleiniau newydd awdurdod lleol, lleiniau preifat â chaniatâd cynllunio		
Cyfanswm		0
Galw Preswyl Cyffredol		Galw am Lleiniau
F. Gwersyllfeydd nas awdurdodir		
G. Datblygu nas awdurdodir/dros dro		2
H. Lleiniau wedi'u gorboblogi/Llety anaddas		
I. Tai arferol		
J. Aelwydydd Newydd i Ddod		
Cyfanswm		2
Aelwydydd Nawr	Aelwydydd yn y dyfodol	Aelwydydd yn y dyfodol
	(ym mlwyddyn 5)	(2021 tan 2026)
K. 19	0	1
L. Angen llain cartref ychwanegol	0	0

⁸Gan gynnwys yr 17 llain a oddefir am y 5 mlynedd gyntaf

Angen nas Bodlonir	Angen yn codi	Llety
M Galw preswyl cyffredol	2	
N. Galw preswyl yn y dyfodol (bl. 5)		
O. Galw preswyl yn y dyfodol (bl. 6-10)	18⁹	
P. Cyflenwad preswyl a gynllunnir		
Q. Angen nas bodlonir (5 mlynedd)	2	
R. Galw nas bodlonir (cyfnod y Cynllun Datblygu)	20	

⁹Gan gynnwys yr 17 llain a oddefir am 5 mlynedd gyntaf yr ALST.

Yr angen am Lleiniau Pobl Sioe Deithiol

6.31 Er nad oes iardiau ffurfiol ym Mro Morgannwg llwyddodd cyfwelwyr i gwblhau 2 gyfweiliad ag aelwydydd Pobl Sioe Deithio. Mae un o'r rhain yn rheoli'r ffair yn Ynys y Barri ac mae'r llall yn byw mewn camper-fan yn ardal y Barri.

6.32 Mae'r cartref sy'n rheoli ffair Ynys y Barri ar hyn o bryd â llety parhaol mewn iard yn Stroud. Dywedodd fod ganddynt un uned llety dros dro (tymhorol) yn y ffair a bod hyn at ddibenion diogelwch i sicrhau bod rhywun yn y safle bob amser yn ystod tymor y ffair. Mae hyn yn bodloni'r holl lety tymhorol ar hyn o bryd.

6.33 O ran gweithredwyr reidiau eraill – nodwyd y gall y rhain newid o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar ba reidiau sy'n gweithredu. Tra cynhelir y ffair, nid anogir dod â charafanau preswyl ar safle'r ffair. Cadarnhawyd bod y rhan fwyaf o weithredwyr ar gyfer tymor 2016 yn lleol ac yn byw mewn tai, neu fod ganddynt iardiau eraill yng Nghymru a Lloegr.

6.34 Mae'r aelwyd eraill a gyfwelwyd wrthi'n ceisio datblygu dull cydweithredol at ddatblygu iard newydd rhywle ar hyd Coridor yr M4 yn Ne Cymru ac wrthi'n ystyried llain o dir ym Mhenybont-ar-Ogwr. Gwnaethant gadarnhau nad ydynt yn ceisio i'r Cyngor ddarpar iard newydd iddynt.

6.35 O ganlyniad nid oes angen ychwanegol i Fro Morgannwg ystyried Pobl Sioe Deithiol.

Darpariaeth Safleoedd Stopio Trawsteithio/Brys

6.36 Mae gan safleoedd trawsteithio swyddogaeth benodol i fodloni anghenion aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr sy'n ymweld ag ardal neu sy'n teithio drwy'r ardal. Fel arfer mae arno gyfyngiad ar hyd yr arhosiad o tua 13 wythnos a chanddo ystod o gyfleusterau fel cyflenwadau dŵr a thrydan a blociau amwynder. Dewis amgen i safle trawsteithio yw man aros brys. Mae gan y math hwn o safle hefyd gyfyngiadau ar hyd yr amser y gall Teithiwr aros arno, ond cyfleusterau mwy cyfyngedig o lawer, fel arfer dim ond ffynhonnell dŵr a thoiledau cemegol. Mae rhai awdurdodau hefyd yn gweithredu Polisi gwersyllfa a dderbynnir neu a negodir lle caiff aelwydydd fynediad i oleuadau, dŵr yfed, casglu gwastraff a llogi toiledau symudol ar gost.

6.37 Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn arbennig o bwysig o ran darpariaeth safleoedd trawsteithio Sipsiwn a Theithwyr. Mae Adran 62A y Ddeddf yn galluogi'r Heddlu i gyfeirio tresmaswyr i symud

eu hunain, eu cerbydau a'u heiddo o unrhyw dir pan fo llain addas ar safle carfanau perthnasol ar gael yn yr un ardal Awdurdod Lleol (neu yn y sir mewn ardaloedd Awdurdod Lleol dwy haen). Llain addas ar safle carfanau perthnasol yw un a leolir yn yr un Awdurdod Lleol â'r tir lle bu tresmasu, ac a reolir gan Awdurdod Lleol, Darparwr Cofrestredig neu berson neu gorff arall fel y nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae cyfraith achosion wedi cadarnhau bod yn rhaid i lain addas fod yn rhywle y gall yr aelwyd ei meddiannu â'u carfan. Nid yw tai brics a mortar yn ddewis amgen addas i lain.

6.38 Felly, mae safle trawsteithio'n lle i aelwydydd sy'n trawsteithio i ardal aros a hefyd yn dull i sicrhau camau gorfodi mwy effeithiol yn erbyn gwersyllfesydd amhriodol heb awdurdod.

6.39 Er mwyn nodi p'un ai a oes angen i'r Cyngor wneud dadansoddiad trawsteisio dadansoddiwyd y data Cyfrif Carfanau a'r asesiad darpariaeth trawsteithio a gynhaliwyd fel rhan o ALST Bro Morgannwg 2013.

6.40 Mae dadansoddiad o nifer y carfanau heb awdurdod nad ydynt ar dir y teithwyr a gofnodwyf ym Mro Morgannwg yn dangos ers i'r carfanau ar safle Sili gael eu cofnodi fel rhai a oddefir o Ionawr 2014 ymlaen, roedd niferoedd y carfanau a gofnodwyd yn isel iawn. Yn ogystal ag ALST 2013 mae manylion o gofnodion Cyngor o 2010 i 2013 a nododd 13 achlysur o wersylla byrdymor ar hyd y ffordd. Nodwyd gwersyllfa arall ar faes parcio yn Ynys y Barri yn ystod y gwaith maes a nododd

Asesiad Lles ei fod yn cynnwys Teithwyr Gwyddelig ar eu ffordd i Iwerddon ac nad oedd ganddynt anghenion llety parhaol yn yr ardal.

6.41 O ganlyniad argymhellodd **nad oedd angen i'r Cyngor ddarparu safle trawsteithio** ym Mro Morgannwg ar y pryd. Ond dylai'r Cyngor barhau i fonitro nifer yr gwersyllfeydd heb awdurdod ac ystyried goddef dros dro neu ddefnyddio Cytundebau Stopio a Negodir i ddelio ag arhosfeydd trawsteithio byrdymor. Mae hwn yn ddull tebyg i'r hyn a fabwysiedir ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

7. Casgliadau

Darpariaeth Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr yn y Dyfodol

7.1 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth hon amcangyfrifir fod angen darpariaeth lleiniau ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg dros 5 mlynedd yr ALST ac i 5 mlynedd nesa'r Cynllun Datblygu yw **2 lain ychwanegol** ac am weddill cyfnod y Cynllun Datblygu i 2026 **18 llain ychwanegol**. Rhydd hyn gyfanswm o **20 llain ychwanegol** dros gyfnod cyfan y Cynllun Datblygu. Y ffigyrau hyn yw swm rhagweledig y ddarpariaeth y mae angen i fodloni ymrwymadau statudol tuag at anghenion y boblogaeth sy'n deillio o'r ardal.

Safleoedd Trawsteithio

7.2 Argymhellir **nad oes angen i'r Cyngor ddarparu safle trawsteithio** ym Mro Morgannwg. Ond dylai'r Cyngor barhau i fonitro nifer yr gwersyllfeydd heb awdurdod ac ystyried goddef dros dro neu ddefnyddio Cytundebau Stopio a Negodir i ddelio ag arhosfeydd trawsteithio byrdymor.

Pobl Sioe Deithiol

7.3 Er nad oes unrhyw iardiau Pobl Sioe Deithiol ffurfiol ym Mro Morgannwg mae'r aelwyd sy'n rheoli'r ffair yn Ynys y Barri wedi nodi bod ganddynt un uned o lety dros dro (tymhorol) yn y ffair a bod hyn at ddibenion diogelwch i sicrhau bod rhywun ar y safle ar bob amser yn ystod tymor y ffair. Mae hyn yn bodloni'r holl lety tymhorol ar hyn o bryd.

7.4 O ran gweithredwyr y reidiau eraill cadarnhawyd bod y rhan fwyaf o weithredwyr ar gyfer tymor 2016 yn lleol ac yn byw mewn tai, neu fod ganddynt iardiau eraill yng Nghymru a Lloegr.

7.5 Mae'r aelwyd arall y cyfwelwyd ag e wrthi'n ceisio datblygu dull cydweithredol at ddatblygu iard newydd rhywle ar hyd Coridor yr M4 yn ne Cymru ac wrthi'n ystyried llain o dir ym Mhenybont-ar-Ogwr. Cadarnhaont nad ydynt yn ceisio i'r Cyngor ddarparu iard newydd iddynt.

7.6 O ganlyniad nid oes angen ychwanegol i Fro Morgannwg ystyried Pobl Sioe Deithiol.

Atodiad A: Safleoedd ac Iardiau ym Mro Morgannwg (Ionawr 2016)

Safle/lard**Lleiniau
Gweithredol****Lleiniau
heb awdurdod****Safleoedd Cyhoeddus**

Dim	-	-
Safleoedd preifat â chaniatâd parhaol		
The Stables, Tresimwn	1	
Safleoedd preifat â chaniatâd dros dro		
The Hawthorns, Twyn-yr-Odyn	1	-
Safleoedd a Oddefir – Hirdymor heb Ganiatâd Cynllunio		
Hayes Road, Sili	-	17
Safle Heb Awdurdod		
Llangan	-	1
CYFANSWM LLEINIAU	2	18
Safleoedd Trawsteithio Cyhoeddus	-	-
Safleoedd Trawsteithio Preifat	-	-
Iardiau Preifat Pobl Sioe Deithiol	-	-
Iardiau Pobl Sioe Deithiol a Oddefir	-	-
Iardiau Pobl Sioe Deithiol Heb Awdurdod	-	-

Atodiad B: Log Cyfweld

Cyfeiriad	Math o ddeiliadaeth	Ceisiadau i gyfweld			Technegau ymgysylltu a ddefnyddiwyd	Cwblhau neu wrthod?	Rheswm dros wrthod?
The Hawthorns, Twyn-yr-Odyn	Safle preifat a awdurdodir	11/12/15			Dim	Wedi'i gwblhau	
The Stables, Tresimwn	Safle preifat a awdurdodir	11/12/15			Dim	Na	Nis meddiennir
Llan-gan	Datblygiad nas awdurdodir	11/12/15			Dim	Gwrthodwyd	Gwrthodiad llwyr
Hayes Road, Sili	Datblygiad nas awdurdodir	19/01/16	02/02/2016	10/03/2016	Dim	Gwrthodwyd	I ddechrau cydwrthododd yr 17 aelwyd i'r unigolyn y siaradwyd ag ef. Yn ystod ymgysylltu dilynol a gwblhawyd gan Tai Bawb cwblhawyd 'cydgyfweiliad' bras yn dilyn fformat y ffurflen cyfweld ag aelwyd. Ni chwblhawyd unrhyw gyfweiliadau unigol.
Pobl Sioe Deithiol Cartref (1)	Brics a mortar	16/11/15			Hysbyseb Worlds Fair	Wedi'i gwblhau	
Pobl Sioe Deithiol Cartref (2)	Brics a mortar	7/01/16			Cyswllt Personol	Wedi'i gwblhau	

Atodiad C: Nodyn Technegol ar Gyfraddau Ffurfiad a Thwf

Aelwydydd

Methodoleg Sipsiwn a Theithwyr: Cyfraddau Ffurfiad a Thwf Aelwydydd Awst 2015

1

Nodyn Technegol ar Gyfraddau Ffurfiad a Thwf Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr Awst 26 2015

Gwasanaethau Ymchwil Barn

Is-gwmni Prifysgol Abertawe

Gwasanaethau Ymchwil Barn

Gwasanaethau

Ymchwil Barn

Methodoleg Sipsiwn a Theithwyr: Cyfraddau Ffurfiad a Thwf Aelwydydd Awst 2015

2

Fel gyda'n holl astudiaethau, mae'r ymchwil hon yn amodol ar Delerau ac Amodau Contract Safonol y Gwasanaethau Ymchwil Barn.

Mae unrhyw datganiad i'r wasg neu gyhoeddi'r ymchwil hon yn gofyn am gymeradwyaeth ORS ymlaen llaw.

Ni wrthodir cymeradwyaeth o'r fath ond ar sail anghywirdeb neu gamddechongli.

© Hawlfraint Awst 2015

Gwasanaethau

Ymchwil Barn

Methodoleg Sipsiwn a Theithwyr: Cyfraddau Ffurfiad a Thwf Aelwydydd Awst 2015

3

Cynnwys

Cyfraddau Twf

Aelwydydd..... 4

Crynodeb a

chasgliadau..... 4

Cyflwyniad

..... 4

Twf compownd.....

6

Cyfrif carafanau

..... 7

Modelu twf poblogaeth 8

Twf aelwydydd.....

12

Cyfraddau diddymu

aelwydydd..... 14

Casgliadau cryno

14

Gwasanaethau

Ymchwil Barn

Methodoleg Sipsiwn a Theithwyr: Cyfraddau Ffurfiad a Thwf Aelwydydd Awst 2015

4

Cyfraddau Twf Aelwydydd

Crynodeb a chasgliadau

1. Mae cyfraddau ffurfiad a thwf aelwydydd yn lleol ac yn genedlaethol yn elfennau pwysig o asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr ond prin y gwnaed gwaith manwl i asesu eu graddfa debygol. Er hyn, yn genedlaethol, rhagdybiwyd yn gyffredin ffurfiad aelwydydd a chyfradd twf o 3% net y flwyddyn mewn Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr lleol, er nad oes tystiolaeth ystadegol o aelwydydd yn tyfu mor gyflym. Y canlyniad oedd chwyddo gofynion cenedlaethol a lleol ar gyfer lleiniau ychwanegol mewn modd afrealistig.

2. Mae'r sawl sydd wedi ceisio cyflwyno tystiolaeth o gyfraddau twf aelwydydd net blynyddol uchel i Sipsiwn a Theithwyr weithiau wedi dibynnu ar gynnydd yn nifer y carafanau, fel yr adlewyrchir yn y cyfrifon carafanau.

Ond, mae data cyfrif carafanau'n annibynadwy ac yn anwadal – felly'r unig ffordd gywir o ragfynegi twf y boblogaeth ac aelwydydd yn y dyfodol yw drwy ddadansoddiad demograffeg manwl (sydd, wrth gwrs, yn cael ei ddefnyddio i asesu anghenion tai yn y gymuned sefydledig).

3. Gallai'r twf yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr fod cyn lleied ag 1.25% y flwyddyn – cyfradd sy'n llawer is na'r 3% y flwyddyn a ragdybir yn gyffredinol, ond mae o leiaf bedair gwaith yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol. Hyd yn oed gan ddefnyddio rhagdybiaethau eithafol ac afrealistig, mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth bod twf poblogaeth ac aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn fwy na 2% y flwyddyn.

4. Mae'r gyfradd twf net a ragdybir yn aml o 3.00% y flwyddyn yn afrealistig a byddai'n gofyn am dystiolaeth ystadegol gadarn cyn ei defnyddio at ddibenion cynllunio. Yn ymarferol, mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn cefnogi cyfradd twf aelwydydd net genedlaethol o 1.5% y flwyddyn i Sipsiwn a Theithwyr.

5. Gallai rhai awdurdodau lleol o bosibl ganiatáu am gyfradd twf aelwydydd o hyd at 2.5% y flwyddyn i sicrhau 'blwch' os yw eu poblogaethau'n gymharol ifanc; ond mae ardaloedd lle mae arolygon ar safleoedd yn dynodi bod llai o blant yn y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, dylid defnyddio'r amcaniad is o 1.5% y flwyddyn at ddibenion cynllunio.

Cyflwyniad

6. Mae cyfradd y twf aelwydydd yn elfen allweddol ymhob asesiad tai, gan gynnwys asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr. O'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, mae ieuentid cymharol nifer o boblogaethau Sipsiwn a Theithwyr yn golygu bod eu cyfraddau geni'n debygol o greu twf poblogaeth uwch na'r cyfartaledd, a chyfraddau ffurfiad aelwydydd *gros* uwch yn gymharol. Ond, er bod y gallai cyfradd *gros* twf aelwydydd fod yn uchel, mae anghenion llety cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol, yn ymarferol, yn cael eu heffeithio gan unrhyw ostyngiad yn nifer yr aelwydydd oherwydd diddymu a/neu symudiadau mewn/allan o'r ardal a/neu drwy drosglwyddo i ffurfiau eraill ar dai.

Cyfradd *net* twf aelwydydd yw cyfradd *gros* ffurfiad *minws* unrhyw ostyngiadau yn nifer yr aelwydydd oherwydd ffactorau megis. Wrth gwrs, y gyfradd *net* sy'n bwysig wrth benderfynu ar anghenion llety yn y dyfodol i Sipsiwn a Theithwyr.

Gwasanaethau

Ymchwil Barn

Methodoleg Sipsiwn a Theithwyr: Cyfraddau Ffurfiad a Thwf Aelwydydd Awst 2015

5

7. Yn y cyd-destun hwn, mae'n destun pryder y gallai nifer o aesiadau anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr heb fod â gwahaniaethu rhwng cyfraddau twf *gros* a *net* nac wedi cyflwyno tystiolaeth i'w cyfraddau cynnydd aelwydydd rhagdybiedig. Mae'r diffygion hyn yn arbennig o bwysig oherwydd pan fo cyfraddau twf rhagdybiedig yn afrealistig o uchel, ac yna wedi'u compowndio dros nifer o flynyddoedd cynllunio, gallant ildio rhagfynegiadau chwyddedig o anghenion llety a chamgyfeirio polisi cyhoeddus. Er hynny, mae asesiadau a dogfennau canllaw wedi rhagdybio cyfraddau twf o tua

3% heb gydnabod yn ddigonol naill ai ystod y ffactorau sy'n effeithio ar gyfraddau twf aelwydydd *gros* na goblygiadau rhagdybiaethau afrealistig wrth ragweld fesul blwyddyn ar sail gompownd. 8. Er enghraifft, mewn astudiaeth i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ('Safleoedd Awdurdod Lleol Sipsiwn a Theithwyr Lloegr' 2003) daeth Pat Niner i'r casgliad y dylid rhagdybio cyfraddau twf *net* mor uchel â 2%-3% y flwyddyn. Yn yr un modd, defnyddiodd y Strategaethau Gofodol Rhanbarthol (a barhaodd i gael eu dyfynnu ar ôl eu diddymu yn 2010) gyfraddau twf *net* o 3% y flwyddyn heb roi unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau'r ffigur (Er enghraifft: 'Accommodation for Gypsies and Travellers and Travelling Showpeople in the East of England: A Revision to the Regional Spatial Strategy for the East of England July 2009'). Fodd bynnag, roedd canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ('Gypsy and Traveller Accommodation Needs Assessments: Guidance', 2007) yn gliriach o lawer gan nodi:

The 3% family formation growth rate is used here as an example only. The appropriate rate for individual assessments will depend on the details identified in the local survey, information from agencies working directly with local Gypsy and Traveller communities, and trends identified from figures previously given for the caravan count. [Yn nhroednodyn 6, tudalen 25]

10. Mae'r canllawiau'n pwysleisio bod gwybodaeth a thueddiadau lleol bob amser yn gorfod cael eu hystyried – am fod cyfradd *gros* twf aelwydydd cael ei gymedroli gan ostyngiadau yn nifer yr aelwydydd drwy ddiidymu a/neu gan aelwydydd yn symud i dai brics a mortar neu symud i ardaloedd eraill. Mewn geiriau eraill, hyd yn oed os yw 3% yn ddichonadwy fel cyfradd twf *gros* mae'n amodol ar gymedroli drwy ostyngiadau mewn aelwydydd drwy ddiidymu neu symud. Y gyfradd twf aelwydydd *net* ganlynol sy'n bwysig at ddibenion Cynllunio wrth asesu anghenion llety yn y dyfodol.

11. Mae'r canllawiau cyfredol hefyd yn cydnabod y dylai asesiadau ddefnyddio cyfraddau twf aelwydydd *net* i'r dyfodol o dystiolaeth leol. Nododd llythyr gan y Gweinidog dros Gymunedau a Llywodraeth Leol (Brandon Lewis AS) i Andrew Selous AS (rhoddwyd yn llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 26 Mawrth 2014):

I can confirm that the annual growth rate figure of 3% does not represent national planning policy.

The previous Administration's guidance for local authorities on carrying out Gypsy and Traveller Accommodation Assessments under the Housing Act 2004 is unhelpful in that it uses an illustrative example of calculating future accommodation need based on the 3% growth rate figure. The guidance notes that the appropriate rate for individual assessments will depend on the details identified in the local authority's own assessment of need. As such the Government is not endorsing or supporting the 3% growth rate figure,'

Gwasanaethau

Ymchwil Barn

Methodoleg Sipsiwn a Theithwyr: Cyfraddau Ffurfiad a Thwf Aelwydydd Awst 2015

6

12. Felly er bod nifer o asesiadau lle rhagdybiwyd twf cyfradd aelwydydd genedlaethol Sipsiwn a Theithwyr o 3% y flwyddyn (ar sail cynsail 'safonol' a/neu ganllawiau) prin fod modd cyfiawnhau hyn ac mae'n gwrthdaro â chanllawiau cynllunio cyfredol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r ddogfen hon yn ceisio integreiddio'r dystiolaeth sydd ar gael am gyfraddau twf aelwydydd *net* er mwyn rhoi sail gadarnhach i asesiadau yn y dyfodol.

Twf compownd

13. Mae cyfradd ragdybiedig twf aelwydydd yn hollbwysig i astudiaethau Sipsiwn a Theithwyr ac at ddibenion cynllunio yn y dyfodol rhagfynegir dros amser ar sail compownd – felly mae gwallau'n gwaethygu'n gynyddol. Er enghraifft, os caiff cyfradd twf *net* 3% ragdybiedig ei chompowndio bob blwyddyn y goblygiad yw y bydd nifer yr aelwydydd dyblu mewn 23.5 mlynedd; ond os defnyddir y gyfradd compownd *net* o 1.5% yna byddai'n cymryd 46.5 mlynedd i ddyblygu nifer yr aelwydydd. Mae'r tabl isod yn dangos effaith ystod o gyfraddau twf compownd.

Tabl 1

Cyfraddau Twf Compownd ac Amser a Gymerir i Nifer yr Aelwydydd Ddyblu

3.00%	23.5	blynedd
2.75%	25.5	mlynedd
2.50%	28	mlynedd
2.25%	31	mlynedd
2.00%	35	mlynedd
1.75%	40	mlynedd
1.50%	46.5	mlynedd

14. Mae'r dadansoddiad uchod yn ddigon amlwg, ond ffordd arall o ddangos sut mae cyfraddau gwahanol effaith twf dros amser yn y tabl isod – sy'n defnyddio llinell sylfaen o 100 o aelwydydd wrth gymhwyso cyfraddau twf compownd gwahanol dros amser. Ar ôl 5 mlynedd, nid yw'r gwahaniaeth rhwng cyfradd twf o 1.5% a 3% ond yn 8 aelwyd (116 minws 108) ond o fewn rhagfynegiad 20 mlynedd y gwahaniaeth yw 46 aelwyd (181 minws 135).

Tabl 2

Twf mewn Aelwydydd dros amser ar gyfer Llinell Sylfaen o 100 Cartref

3.00%	116	134	156	181	438	1,922
2.75%	115	131	150	172	388	1,507
2.50%	113	128	145	164	344	1,181
2.25%	112	125	140	156	304	925
2.00%	110	122	135	149	269	724
1.75%	109	119	130	141	238	567
1.50%	108	116	125	135	211	443

Gwasanaethau

Methodoleg Sipsiwn a Theithwyr:

Cyfraddau Ffurfiad a Thwf Aelwydydd Awst 2015

7

15. I grynhoi, mae cyfradd ragdybiedig twf aelwydydd yn hanfodol bwysig am fod unrhyw chwyddiadau'n fwy fyth pan fo'r gyfradd wedi'i rhagdybio dros amser ar sail compownd. Fel yr ydym wedi danos, wedi'i gompowndio a'i ragfynegi dros y blynyddoedd, mae cyfradd flynyddol o 3% o ran twf aelwydydd yn awgrymu gofynion llety llawer uwch i Sipsiwn a Theithwyr na chyfradd 1.5% y flwyddyn.

Cyfrif carafanau

16. Dibynnodd y rhai sy'n ceisio dangos cyfraddau twf aelwydydd cenedlaethol Sipsiwn a Theithwyr o 3% mewn rhai achosion ar gynnydd yn nifer y carafanau (a adlewyrchir mewn cyfrif carafanau) fel tystiolaeth. Er enghraifft, mae rhai asiantau cynlluni wedi awgrymu defnyddio tueddiadau 5 mlynedd yn y cyfrif Carafanau cenedlaethol i ddynodi cyfradd uwch twf aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr. Er enghraifft, dengys y cyfrif o Orffennaf 2008 i Orffennaf 2013 dwf o 19% yn nifer y carafanau ar y safle – sydd gyfystyr â chyfradd twf compownd flynyddol gyfartalog o 3.5%. Felly, os yw'n ddichonadwy, gallai'r dull hwn gadarnhau defnyddio cyfradd twf aelwydydd flynyddol o 3% wrth ragfynegi anghenion yn y dyfodol.

17. Ond, mae data cyfrif carafanau'n annibynadwy ac yn anwadal. Er enghraifft, afluniwyd cyfrif carafanau Gorffennaf 2013 gan gynnwys 1,000 o garafanau (5% o gyfanswm Lloegr) a gofnodwyd mewn digwyddiad Cristnogol ger Weston-Super-Mare yng Ngogledd Gwlad Yr Haf. Amcangyfrifir yn nig oedd hwn, ond hefyd, ni chynhaliwyd gwiriadau i weld sawl carafán oedd wedi'u meddiannu gan Sipsiwn a Theithwyr. Felly, mae'r cyfrif canlynol yn goramcan poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr a hefyd y gyfradd twf aelwydydd.

18. Mae'r SYG wedi defnyddio'r fethodoleg cyfrif carafanau'n ddamcaniaethol i gyfrifo cyfraddau twf aelwydydd awgrymedig cenedlaethol i Sipsiwn a Theithwyr dros y 15 mlynedd diwethaf, a dangosir y canlyniadau yn y tabl isod. Mae cyfrif mis Ionawr 2013 yn awgrymu cyfradd twf flynyddol gyfartalog o 1.6% dros bum mlynedd, ac mae cyfrif mis Gorffennaf 2013 yn rhoi cyfradd 5 mlynedd gyfartalog o 3.5%; yn yr un modd byddai astudiaeth a feincnodwyd ym mis Ionawr 2004 yn ildio cyfradd twf o 1%

gydag un wedi'i meincnodi yn Ionawr 2008 yn awgrymu cyfradd twf o 5%. Yn amlwg, nid yw unrhyw fodel mor anwadal â hwn yn briodol at gynllunio yn y dyfodol.

Tabl 3

Carafannau CLG Cenedlaethol Gorffennaf 1998 i Orffennaf 2014 gyda Chyfraddau Twf (Ffynhonnell: CLG)

(table headings:)

Dyddiad

Nifer y carafannau

Twf 5 mlynedd yn nifer y carafannau

Canran twf dros 5 mlynedd

Blynyddol dros y 5 mlynedd diwethaf

Ionawr 2015 20,123 1,735 9.54% 1.84%

Gorff 2014 20,035 2,598 14.90% 2.81%

Ion 2014 19,503 1,638 9.17% 1.77%

Gorff 2013 20,911 3,339 19.00% 3.54%

Ion 2013 19,359 1,515 8.49% 1.64%

Gorff 2012 19,261 2,112 12.32% 2.35%

Ion 2012 18,746 2,135 12.85% 2.45%

Gorff 2011 18,571 2,258 13.84% 2.63%

Ion 2011 18,383 2,637 16.75% 3.15%

Gorff 2010 18,134 2,271 14.32% 2.71%

Ion 2010 18,370 3,001 19.53% 3.63%

Gorff 2009 17,437 2,318 15.33% 2.89%

Ion 2009 17,865 3,503 24.39% 4.46%

Gorff 2008 17,572 2,872 19.54% 3.63%

Ion 2008 17,844 3,895 27.92% 5.05%

Gorff 2007 17,149 2,948 20.76% 3.84%

Ion 2007 16,611 2,893 21.09% 3.90%

Gorff 2006 16,313 2,511 18.19% 3.40%

Ion 2006 15,746 2,352 17.56% 3.29%

Gorff 2005 15,863 2,098 15.24% 2.88%

Ion 2005 15,369 1,970 14.70% 2.78%

Gorff 2004 15,119 2,110 16.22% 3.05%

Ion 2004 14,362 817 6.03% 1.18%

Gorff 2003 14,700

Ion 2003 13,949

Gorff 2002 14,201

Ion 2002 13,718

Gorff 2001 13,802

Ion 2001 13,394

Gorff 2000 13,765

Ion 2000 13,399

Ion 1999 13,009

Gorff 1998 13,545

19. Mae'r gyfradd twf flynyddol yn nifer y carafannau'n amrywio fymryn o ychydig dros 1% i ychydig dros 5% y flwyddyn. Nodwn os defnyddir cyfnodau amser hwy fod y ffigurau'n fwy sefydlog. Dros y cyfnod 36 mlynedd 1979 (dechrau'r cyfrif carafannau) i 2015 cyfradd twf compownd nifer y carafannau oedd 2.5% y flwyddyn.

20. Er nad oes rheswm rhagdybio bod y cyfraddau amrywiol iawn hyn yn cyfateb i gyfraddau cynnydd tebyg yn y boblogaeth aelwydydd. Yn wir, roedd y cyfraddau uchaf o dwf yn nifer y carafannau rhwng 2006 a 2009, pan gynhaliwyd rownd gyntaf yr asesiadau anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr – felly ymddengys yn ddichonadwy i'r asesiadau arwain at gynnwys safleoedd a charafannau ychwanegol (y mae'n bosibl y buont yno, ond heb eu cyfrif yn flaenorol). Mae cyfrif carafannau'n brocsi gwael iawn ar gyfer twf aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr. Nid yw carafannau a gyfrifir bob amser wedi'u meddiannu gan deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ac mae nifer y carafannau sydd gan deuluoedd yn gallu cynyddu'n gyffredinol wrth i gyfoeth a thwf economaidd wella (ond heb dwf yn nifer yr aelwydydd).

21. Nid oes rheswm i gredu fod cyfraddau amrywiol y cynnydd yn nifer y carafannau'n cyfateb i gyfraddau twf tebyg yn y boblogaeth aelwydydd. Nid yw'r cyfrif carafannau'n ganllaw cynllunio priodol a'r unig ffordd gywir o ragfynegi twf poblogaeth ac aelwydydd yn y dyfodol yw drwy ddadansoddiad demograffig – a ddylai ystyried cyfraddau twf poblogaeth ac aelwydydd. Nid yw'r dull hwn yn briodol o astudiaethau angen am y rhesymau canlynol:

Twf poblogaeth modelu

Cyflwyniad

22. Ymddengys yr hafaliad sylfaenol i gyfrifo cyfradd twf y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn syml: yn dechrau â'r sail boblogaeth ac yna cyfrifo'r cynnydd/gostyngiad cyfartalog drwy ganiatáu am enedigaethau, marwolaethau a mewnfudo ac allfudo. Serch hynny, mae deillio amcangyfrifon boddhaol yn anodd am fod y dystiolaeth yn aml yn brin – felly, yn y cyd-destun hwn, mae SYG wedi modelu twf y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr genedlaethol yn seiliedig ar y cyfraddau genedigaethau a marwolaethau tebygol a chan ddefnyddio PopGroup (y brif feddalwedd ar gyfer rhagfynegi poblogaeth a thai). I wneud hynny, rydym wedi ategu'r ffynonellau ystadegol cenedlaethol sydd ar gael â data lleol (o'n harolygon ein hunain) ac mewn rhai achosion o ymchwil ryngwladol.

Nid oes rhan o'r data ategol dan amheuaeth, ac ni fyddant ar eu pen eu hunain; ond, o'u hystyried â'i gilydd, mae ganddynt rym cronol. Mewn unrhyw achos mae'r dull a fabwysiadwn yn fwy hunan-ymwybodol yn gritigol na dim ond mabwysiadu cyfraddau 'safaonol' ar sail cysail.

Effeithiau mudo

23. Effeithir ar y twf yn y boblogaeth gan fudo net cenedlaethol a mudo lleol (fel Sipsiwn a Theithwyr o un ardal i'r llall). O ran mudo cenedlaethol, mae poblogaeth y Sipsiwn a Theithwyr yn gymharol sefydlog, gydag ond mymryn o fudo rhyngwladol. Mae mewn egwyddor yn bosibl i Deithwyr Gwyddelig (sy'n byw yn Iwerddon) symud i'r DU, ond nid oes dystiolaeth o hyn yn digwydd i raddau sylweddol a ganed y rhan fwyaf helaeth o'r Teithwyr Gwyddelig yn y DU neu maent yn breswylwyr hirdymor yma. O ran effeithiau mudo lleol, gall ac mae Sipsiwn a Theithwyr yn symud rhwng awdurdodau lleol – ond ymhob achos mae'r mewnfudo i un ardal yn cyfateb i allfudo o ardal arall. Gan ei bod yn anodd amcangyfrifo effaith net symudiadau o'r fath dros gyfnodau cynllun lleol, Mae SYG fel arfer yn rhagdybio y bydd mudo net i/o ardal o ddim. Serch hynny, pan fo'n bosibl amcangyfrifo effeithiau penodol mewn/allfudo, ystyriwn rheiny, tra'n gwahaniaethu rhwng effeithiau ffurfiad mudo ac aelwydydd.

Proffil poblogaeth

24. Prif ffynhonnell cyfradd twf poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn y DU yw Cyfrifiad 2011. Mewn rhai achosion gellir ategu'r data gan ddata arolygon cartrefi SYG sy'n deillio o mwy na 2,000 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb â Sipsiwn a Theithwyr ers 2012. Am y tro cyntaf roedd cwestiwn ethnigrwydd cyfrifiad 2011 yn cynnwys 'Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig' fel categori penodol. Er bod duedd anymatebol fwy na thebyg yn golygu bod maint y boblogaeth wedi'i dangyfrifo, nid yw'r proffil oedran y cyfrifiad o reidrwydd wedi'i amharu ac mae'n paru'r proffil a ddeillir o arolygon aelwydydd helaeth SYG.

25. Mae'r proffil oedran yn bwysig, fel y tabl isod (o ddata'r cyfrifiad). Hyd yn oed gan ragdybio dim marwolaethau yn y boblogaeth, mae cyflawni twf poblogaeth blynyddol o 3% (hynny yw dyblu mewn maint bob 23.5 blynedd) ange i hanner y boblogaeth "blwyddyn un" fod dan 23.5 blynedd. Pan gyfrifir marwolaethau (ar gyfradd o 0.5% y flwyddyn), i gyflawni'r un gyfradd twf, byddai angen i boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr fod â thua hanner ei haelodau fod dan 16 oed. Ond, yn wir, dengys cyfrifiad 2011 y pwynt canol ffordd i'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn 26 mlynedd – felly nid oes modd i'r boblogaeth ddyblu mewn 23.5 blynedd.

Tabl 4

Proffil Oedran y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr (Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth y DU 2011)

Oedran Grŵp Nifer y bobl Canran Gronnol

0 i 4 oed 5,725 10.4

5 i 7 oed 3,219 16.3

8 i 9 oed 2,006 19.9

10 i 14 oed 5,431 29.8
15 oed 1,089 31.8
16 i 17 oed 2,145 35.7
18 i 19 oed 1,750 38.9
20 i 24 oed 4,464 47.1
25 i 29 oed 4,189 54.7
30 i 34 oed 3,833 61.7
35 i 39 oed 3,779 68.5
40 i 44 oed 3,828 75.5
45 i 49 oed 3,547 82.0
50 i 54 oed 2,811 87.1
55 i 59 oed 2,074 90.9
60 i 64 oed 1,758 94.1
65 i 69 oed 1,215 96.3
70 i 74 oed 905 97.9
75 i 79 oed 594 99.0
80 i 84 oed 303 99.6
85+ oed 230 100.0

Cyfraddau genedigaeth a ffrwythlondeb

26. Mae'r tabl uchod yn fodd i ddeall y gyfradd twf poblogaeth drwy enedigaethau. Dengys y tabl fod plant sy'n goroesi 0-4 oed yn 10.4% o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr – sy'n golygu, ar gyfartaledd, fod 2.1% o'r boblogaeth wedi'u geni bob blwyddyn (dros y 5 mlynedd diwethaf). Mae'r un amcangyfrif wedi'i gadarn os ystyriwn fod y rhai 0-14 oed yn cynnwys 29.8% o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr – sydd hefyd yn golygu bod bron yn union 2% o'r boblogaeth wedi'i eni bob blwyddyn. (Caiff marwolaethau babanod effaith fechan iawn yn y grwpiau oedran cynnar felly mae'r data'n cynnig y sail orau ar gyfer amcangyfrif y gyfradd genedigaethau i'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr).

27. Mae'r gyfradd ffrwythlondeb cyfansawdd (TFR) ar gyfer poblogaeth gyfan y DU ychydig yn is na 2 – sy'n golygu ar gyfartaledd y gall pob merch ddisgwyl cael ychydig yn llai na dau blentyn sy'n tyfu'n oedolion. Ni wyddom ond am un amcangyfrif o'r cyfraddau ffrwythlondeb yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn y DU. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y llyfr 'Ethnic identity and inequalities in Britain: The dynamics of diversity' gan Dr Stephen Jivraj a'r Athro Ludi Simpson a gyhoeddwyd ym Mai 2015. Mae'n defnyddio data Cyfrifiad 2011 ac yn rhoi TFR o 2.75 i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

28. Archwiliodd SYG ein data arolygon ni i ymchwilio i gyfradd ffrwythlondeb merched Sipsiwn a Theithwyr. Dengys data SYG fod, ar gyfartaledd, merched Sipsiwn a Theithwyr 32 oed yn cael 2.5 plentyn (ond oherwydd bod plant mamau hŷn na hyn yn tueddu i adael eu cartrefi'n raddol, ni chwblhawyd TRFau llawn). Ar y sail hon mae'n rhesymol rhagdybio bod tri phlentyn ar gyfartaledd y ferch dros oes a fyddai'n gyson â'r dystiolaeth o Gyfrifiad 2011 sef tua 2.75 plentyn y ferch. Mewn unrhyw achos, mae'r TFR i ferched 24 oed yn 1.5 plentyn, sy'n llai o lawer na'r nifer sydd ei angen i ddyblu'r boblogaeth ymhen 23.5 blynedd – ac felly mae'n awgrymu cyfradd twf net o lai na 3% y flwyddyn.

Cyfraddau marw

29. Er bod y data uchod yn awgrymu cyfradd twf flynyddol dryw enedigaethau o tua 2%, mae'n rhaid hefyd ystyried y gyfradd marwolaethau – sy'n golygu na all twf poblogaeth fod yn 2%.

y flwyddyn. Yng Nghymru a Lloegr mae bron hanner miliwn o farwolaethau'r flwyddyn – tua 0.85% o'r boblogaeth o 56.1 miliwn yn 2011. Os yw'r gyfradd marwolaethau hwn yn cael ei chymhwyso i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr y gyfradd twf ragdybiedig yw tua 1.15%-1.25% y flwyddyn.

30. Ond, mae'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn sylweddol iau na'r cyfartaledd a gellid disgwyl cyfradd marwolaethau is ar y cyfan (er bod cyfradd lai na'r cyfartaledd o'r boblogaeth yn byw y tu hwnt i 68-70 oed). Lle nad oes sicrwydd, byddai cyfradd marwolaethau ragdybiedig o tua 0.5% i 0.6% y flwyddyn yn awgrymu cyfradd twf net y boblogaeth o tua 1.5% y flwyddyn.

31. Er bod y boblogaeth yn iau a bod ganddi gyfradd marwolaethau is na'r cyfartaledd, mae Sipsiwn a Theithwyr yn llai tebygol na'r cyfartaledd i fyw'n hŷn na 68 i 70 oed. Er bod y disgwyliad oes

cyfartalog ar draws poblogaeth gyfan y DU ar hyn o bryd ychydig dros 80 mlynedd, canfu astudiaeth Prifysgol Sheffield fod disgwyliad oes Sipsiwn a Theithwyr tua 10-12 mlynedd yn iau na'r cyfartaledd (Parry e tal (2004) 'The Health Status of Gypsies and Travellers: Report of Department of Health Inequalities in Health Research Initiative', Prifysgol Sheffield). Felly, yn ein modelu twf poblogaeth rydym wedi defnyddio amcangyfrif ceidwadol o ddisgwyliad oes cyfartaledd o 72 oed – sy'n gwbl gyson â'r nifer is-na'r-disgwyl o Sipsiwn a Theithwyr dros 70 oed yng nghyfrifiad 2011 (a hefyd yn nata arolwg SYG ei hun). Ar sail astudiaeth Sheffield, galledd fod â disgwyliad oes o ddim ond 68 oed, ond rydym wedi bod yn bwyllog wrth wneud hyn.

Allbynnau modelu

32. Os rhagdybiwn TFR o 3 a disgwyliad oes cyfartalog o 72 oed i Sipsiwn a Theithwyr, yna mae'r rhagfynegiadau modelu'n disgwyl i'r boblogaeth gynyddu gan 66% dros y 40 mlynedd nesaf – yn awgrymu cyfradd twf compownd yn y boblogaeth o 1.25% y flwyddyn (llawer is na'r 3% y flwyddyn a ragdybir yn aml). Os rhagdybiwn fod disgwyliad oes Sipsiwn a Theithwyr yn cynyddu i 77 mlynedd erbyn 2050, yna mae'r cyfradd twf poblogaeth ragdybiedig yn codi i bron 1.5% y flwyddyn. I greu cyfradd 'ystod uwch' o ran twf y boblogaeth, rydym wedi rhagdybio TFR o 4 a disgwyliad oes cyfartalog yn codi i dros 77 dros y 40 mlynedd nesaf, sydd yna'n ildio cyfradd twf 'ystod uwch' o 1.9% y flwyddyn. Dylem nodi, fodd bynnag, bod cyfraddau TFR o 4 ar hyn o bryd ond yn Affrica is-Sahara ac Affganistan, felly mae'n rhagdybiaeth annichonadwy.

33. Mae'r awgrymidau bod sail gadaen i'r allbynnau modelu hyn. Er enghraifft, yn Amcangyfrifon Poblogaeth Is-genedlaethol SYG o 2012 cyfradd twf ragdybiedig y boblogaeth yn Lloegr i 2037 yw 0.6% y flwyddyn y mae 60% oherwydd newid naturiol a 40% oherwydd mudo. Felly, mae'r gyfradd twf naturiol yn y boblogaeth i Loegr bron yn 0.35% yn union y flwyddyn – sy'n golygu bod ein hamcangyfrif i gyfradd twf y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr bedair gwaith yn fwy na phoblogaeth gyffredinol Lloegr.

34. Mae canfyddiadau Sipsiwn a Theithwyr SYG hefyd yn cael eu hategu gan ddata ar gyfer poblogaethau cymaradwy o amgylch y byd. Fel y nodwyd, ar sail dadansoddiad soffistigedig, mae Hwngari yn cynllunio at ei phoblogaeth Roma'n tyfu tua 2.0% y flwyddyn, ond mae'r twf demograffeg ategol fel arfer yn agosach i 1.5% y flwyddyn.

Mae Banc y Byd yn amcangyfrif bod poblogaethau Bolifia, Cambodia, Yr Aifft, Malysia, Pacistan, Paragwai, y Philipines a Feneswela (gwledydd â chyfraddau genedigaethau uchel a disgwyliad oes cynyddol) oll yn dangos cyfraddau twf poblogaeth o tua 1.7% y flwyddyn. Felly, yng nghyd-destun data cenedlaethol, cymariaethau modelu a dichonadwy rhyngwladol SYG, mae'n annichonadwy rhagdybio cyfradd twf flynyddol net o 3% i'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr.

Twf aelwydydd

35. Yn ogystal â thwf yn y boblogaeth yn dylanwadu ar nifer yr aelwydydd, mae maint aelwydydd hefyd yn effeithio ar y rhif. Felly, nid yw cyfraddau twf y boblogaeth ac aelwydydd o reidrwydd yn parhau'n uniongyrchol yn bennaf oherwydd y duedd gyfredol i bobl fyw mewn aelwydydd llai (diblentyn neu berson sengl (gan gynnwys, wrth gwrs, pobl hŷn) yn dilyn ysgariau neu fel gweddw). Yn seiliedig ar ffactorau o'r fath, mae rhagfynegiadau 2012 CLG yn trosi data poblogaeth cyfredol i gyfradd twf aelwydydd rhagdybiedig o 0.85% y flwyddyn (o'i gymharu â chyfradd twf poblogaeth o 0.6% y flwyddyn).

36. Gan fod y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn gymharol ifanc a bod nifer o aelwydydd unig riant, gallai twf poblogaeth flynyddol o 1.5% y flwyddyn arwain at gyfraddau twf aelwydydd uwch na'r cyfartaledd, yn benodol os yw maint aelwydydd cyfartalog yn lleihau neu os yw aelwydydd iau na'r cyfartaledd yn cael eu ffurfio. Fodd bynnag, er bod tystiolaeth bod aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr eisoes yn ffurfio ar oedran cynharach na'r boblogaeth gyffredinol, mae'r cwmpas am gyfradd twf gynt, drwy ffurfio aelwydydd yn gynt, yn gyfyngedig.

37. Yn seiliedig ar gyfrifiad 2011, mae'r tabl isod yn cymharu oedran cynrychiolwyr aelwydydd yn aelwydydd Lloegr ag aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr – yn dangos bod mwy o gynrychiolwyr

aelwydydd yn yr un olaf sydd dan 25 oed. Yn gyffredinol ym mhoblogaeth Lloegr, mae 3,6% o gynrychiolwyr aelwydydd 16-24 oed o'i gymharu ag 8.7% yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr. Oherwydd bod y cyfrifiad yn cynnwys aelwydydd a Sipsiwn a Theithwyr ar safle heb wahaniaethu, nid oes modd gwybod a oes cyfraddau ffurfio gwahanol ar safleoedd ac mewn tai. Ond, mae data arolwg SYG (i safleoedd mewn ardaloedd fel Canol Swydd Bedford, Swydd Gaer, Essex, Swydd Gaerloyw a nifer o awdurdodau yn Swydd Henffordd) yn dangos mewn tuw 10% o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr â chynrychiolwyr aelwydydd dan 25 oed.

Tabl 5

Oedran Pennaeth yr Aelwyd (Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth y DU 2011)

Oedran cynrychiolydd yr aelwyd

Pob aelwyd yn Lloegr

Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr

Nifer yr aelwydydd

Canran yr aelwydydd

Nifer yr aelwydydd

Canran yr aelwydydd

24 oed ac iau	790,974	3.6%	1,698	8.7%
25 i 34 oed	3,158,258	14.3%	4,232	21.7%
35 i 49 oed	6,563,651	29.7%	6,899	35.5%
50 i 64 oed	5,828,761	26.4%	4,310	22.2%
65 i 74 oed	2,764,474	12.5%	1,473	7.6%
75 i 84 oed	2,097,807	9.5%	682	3.5%
85+ oed	859,443	3.9%	164	0.8%
Cyfanswm	22,063,368	100%	19,458	100%

38. Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfradd yr aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr person sengl sy'n debyg i boblogaeth ehangach Lloegr; ond mae mwy o unig rieni, llai o gyplau heb blant, a llai o gartref heb blant dibynnu ymhlith Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r data hwn yn awgrymu bod aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn ffurfio ar oedran gynharach na'r boblogaeth gyffredinol.

Tabl 6

Math yr Aelwydydd (Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth y DU 2011)

Math yr Aelwyd

Holl aelwydydd Lloegr

Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr Lloegr

Nifer yr aelwydydd

Canran yr aelwydydd

Nifer yr aelwydydd

Canran yr aelwydydd

Person sengl	6,666,493	30.3%	5,741	29.5%
Cwpl heb blant	5,681,847	25.7%	2345	12.1%
Cwpl â phlant dibynnol	4,266,670	19.3%	3683	18.9%
Cwpl â phlant nad ydynt yn ddibynnol	1,342,841	6.1%	822	4.2%
Unig riant: Plant dibynnol	1,573,255	7.1%	3,949	20.3%
Unig riant: Holl blant nad ydynt yn ddibynnol	766,569	3.5%	795	4.1%
Aelwydydderaill	1,765,693	8.0%	2,123	10.9%
Cyfanswm	22,063,368	100%	19,458	100%

39. Mae data arolwg safle SYG yn gyffredinol gymharol â'r data uchod. Canfuom fod: tua 50% o leiniau â phlant dibynnol o gymharu â 45% yn y cyfrifiad; mae cyfradd uchel o unig rieni; a tua phumed o aelwydydd yn rhai person sengl. Un eglurhad posibl i ganfyddiad y cyfrifiad bod cyfradd uwch o aelwydydd pobl sengl nag yn arolygon SYG yw bod nifer o aelwydydd hŷn yn byw mewn brics a mortar (efallai am resymau iechyd).

40. Canfu arolygon ar y safle SYG fwy o breswylwyr benywaidd na gwrywaidd. Mae'n bosib bod rhai aelwydydd person sengl yn ddynion yn gysylltiedig â unig rieni benywaidd ac yn afodlon cymryd rhan yn yr arolygon. Ffactor arall posibl yw ar unrhyw un adeg mae tua 10% o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr wrywaidd yn y carchar – awgrym a ddaw o'r ffaith fod tua 5% o'r boblogaeth gwrywaidd yn y carchar yn dweud eu bod yn Sipsiwn a Theithwyr ('People in Prison: Gypsies, Romany and Travellers', Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi, Chwefror 2004) – sy'n awgrymu bod tua 4,000 o sipsiwn a Theithwyr yn y carchar. O ystyried bod bron yr holl o'r 4,000 o bobl yn wrywod a bod tua 200,000 o Sipsiwn a Theithwyr, mae hyn gyfystyr â tua 4% o'r holl boblogaeth wrywaidd, ond yn agosach at 10% o'r boblogaeth dynion sy'n oedolion.

41. Y peth allweddol, fodd bynnag, yw gan fod 20% o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn unig rieni, a bod hyd at 30% yn sengl, nad oes ond posibilad cyfyngedig i leihad pellach ym maint cyfartalog yr aelwydydd i gynyddu cyfraddau ffurfio aelwydydd cyfredol yn sylweddol – ac nad oes rheswm credu y bydd ffurfio aelwydydd yn gynt na chyfraddau ysgaru uwch yn y tymor canolig yn effeithio ar gyfraddau ffurfio aelwydydd. Er bod gwahaniaethau yn y boblogaeth gyffredinol, mae cyfradd twf yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr o 1.5% y flwyddyn yn debygol o arwain at gyfradd twf aelwydydd o 1.5% y flwyddyn – mwy na'r 0.85% i boblogaeth Lloegr gyfan, ond yn llawer llai na'r ffigur a ragdybir yn gyffredinol o 3% i Sipsiwn a Theithwyr.

Cyfraddau aelwydydd yn dod i ben

42. Yn olaf, mae ystyriaeth o gyfraddau aelwydydd yn dod i ben hefyd yn awgrymu bod y gyfradd twf net i Sipsiwn a Theithwyr yn annhebygol iawn o gyrraedd 3% y flwyddyn (fel y rhagdybir yn gyffredinol). Mae'r tabl isod, sy'n deillio o asesiadau strategol prif ffrwd y farchnad tai, yn dangos yn gyffredinol fod cyfraddau diddymu aelwydydd rhwng 1.0% ac 1.7% y flwyddyn. Mae Llundain yn wahanol am fod pobl yn tueddu i symud allan ra ôl ymddeol yn hytrach nag aros yn Llundain hyd angau. Byddai mabwysiadu cyfradd diddymu 1.0% fel ganllaw Safonol yn gyffredinol yn rhy isel, am ei bod yn golygu y bydd aelwydydd ar gyfartaledd yn para 70 mlynedd ar ôl eu ffurfio. Byddai cyfradd diddymu o 1.5% yn fwy dichonadwy fel canllaw cenedlaethol, yn awgrymu bod aelwydydd yn gyffredinol yn parhau am 47 mlynedd ar ôl eu ffurfio.

Tabl 7

Cyfraddau Diddymu Blynyddol (Ffynhonnell: SHMA a gynhelid gan SYG)

Ardal

Rhagfynegiad blynyddol
Aelwydydd yn dod i ben

Nifer yr aelwydydd

Canrannau

Llundain Fwyaf 25,000 3,266,173 0.77%
Blaenau Gwent 468.2 30,416 1.54%
Bradford 3,355 199,296 1.68%
Ceredigion 348 31,562 1.10%
Exeter, Dwyrain Dyfnaint, Dyfnaint Ganol, Teignbridge a Torbay 4,318 254,084 1.70%
Castell-Nedd Port Talbot 1,352 57,609 2.34%
Norwich, De Norfolk a Broadland 1,626 166,464 0.98%
Arfordir Suffolk 633 53,558 1.18%
Sir Fynwy Casnewydd Torfaen 1,420 137,929 1.03%

43. Mae'r gyfradd diddymu o 1.5% yn bwysig am fod y gyfradd marwolaethau'n ffactor allweddol wrth gymedroli cyfradd twf aelwydydd **gros**. Yn arwyddocaol, mae cymhwysio cyfradd diddymu o 1.5% i gyfradd ffurfio twf aelwydydd **gros** o 3% yn ildio cyfradd o 1.5% y flwyddyn - y mae SYG yn ei ystyried yn ffigur realistig i'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr sy'n unol â gwybodaeth ddemograffig arall. Wedi'r cwbl, yn seiliedig ar y gyfradd diddymu, byddai cyfradd ffurfio aelwydydd **net** o 3% y flwyddyn yn gofyn am gyfradd ffurfio **gros** o 4.5% y flwyddyn (a fyddai'n ei dro'n gofyn am ragdybiaethau afrealistig tu hwnt o ran cyfraddau genedigaeth).

Crynodeb o'r casgliadau

44. Mae anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ar y dyfodol fel arfer wedi'u gorgyfrifo am fod cyfraddau twf poblogaeth ac aelwydydd wedi'u rhagdybio ar sail cyfraddau twf net rhagdybiedig o 3% y flwyddyn.

45. Defnyddiwyd cyfrifon carafanau annibynadwy i gefnogi'r gyfradd twf honedig, ond nid oes rheswm i feddwl bod cyfradd y cynnydd carafanau'n cyfateb i'r twf blynyddol ym mhoblogaeth ac aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr.

46. Gallai twf y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr genedlaethol fod mor isel ag 1.25% y flwyddyn - sydd dal bedair gwaith yn fwy nag yn y gymuned sefydledig. Hyd yn oed gan ddefnyddio rhagdybiaethau eithafol ac afrealistig, mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth bod twf poblogaeth ac aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr net gros yn fwy na 2% y flwyddyn yn genedlaethol. Mae'r gyfradd twf aelwydydd 3% a ragdybir yn aml i Sipsiwn a Theithwyr yn afrealistig.

47. Mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn awgrymu bod cyfradd twf aelwydydd flynyddol net Sipsiwn a Theithwyr yn 1.5% y flwyddyn. Mae'r gyfradd net a ragdybir yn aml o 3% y flwyddyn yn afrealistig. Gallai rhai awdurdodau lleol o bosibl ganiatáu am gyfradd twf aelwydydd o hyd at 2.5% y flwyddyn i sicrhau 'blwch' os yw eu poblogaethau'n gymharol ifanc; ond mae ardaloedd lle mae arolygon ar safleoedd yn dynodi bod llai o blant yn y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, dylid defnyddio'r amcaniad is o 1.5% y flwyddyn.